Fframwaith Maethu Cenedlaethol

# Adroddiad Cam Un

2015 – 2016

National Fostering Framework

Fframwaith Maethu Cenedlaethol

# Cynnwys


Crynodeb ac Argymhellion ..... 3
Blwyddyn Un 2016-17: Cynllun Prosiect Drafft ..... 7
Beth yw'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol? ..... 8
Papur 'Barn Gychwynnol' ..... 9
Y Rhaglen Waith ar gyfer Cam Un ..... 10
Aelodau'r Grŵp Cyfeirio ..... 11
Gwybodaeth am Berfformiad: Gwasanaethau Maethu ..... 12
Ffynonellau Cyfredol o Wybodaeth ..... 15
Sut mae ein perfformiad cyfredol yn ymddangos? ..... 17
Yr hyn na wyddom am ein perfformiad ..... 19
Darparu adnoddau i Wasanaethau Maethu ..... 21
Y Rhaglen Ymgynghori ..... 23
Ymgynghoriad: Plant a Phobl Ifanc ..... 24
Ymgynghoriad: Gofalwyr Maeth ..... 28
Ymgynghoriad: Staff Annibynnol (Masnachol a Thrydydd Sector) ..... 29
Ymgynghoriad: Awdurdodau Lleol a Phartneriaid Gwasanaethau Cyhoeddus ..... 31
Dysgu Oddi Wrth Ein Gilydd ..... 34
Beth a ddysgasom gan Gam Un? ..... 36
Canlyniadau a Ddymunir oddi wrth Gam Un ..... 37




# Crynodeb ac Argymhellion

**Gallwn ddangos bod gofal maeth yn hynod fuddiol i blant ac i bobl ifanc sy'n byw i ffwrdd oddi wrth eu teuluoedd. Mae cael lleoliadau da a gofalwyr maeth o ansawdd yn amddiffyniad hanfodol i blant sy'n derbyn gofal ac yn allweddol i'w cyfleoedd bywyd yn y dyfodol.**



Gallwn ddangos bod gofal maeth yn hynod fuddiol i blant ac i bobl ifanc sy'n byw i ffwrdd oddi wrth eu teuluoedd. Mae cael lleoliadau da a gofalwyr maeth o ansawdd yn amddiffyniad hanfodol i blant sy'n derbyn gofal ac yn allweddol i'w cyfleoedd bywyd yn y dyfodol. Mewn llawer o ffyrdd, dyma ofal cyhoeddus ar ei orau. Mae'r gwasanaethau yn aml yn gweithio yn unol â safonau eithriadol a chydag enghreifftiau da o welliannau wedi'u llunio'n dda. Ein cenhadaeth yw sicrhau bod yr holl blant a phobl ifanc perthnasol yn gallu cael gofal o ansawdd da lle y gallant ddatblygu a ffynnu, a chyrraedd eu llawn botensial. Mae angen i'r gofal hwn gael ei ddarparu gan gorff o gefnogir yn dda o ofalwyr maeth ymroddedig a all ddarparu amgylchedd teuluol diogel, llawn gofal ac sy'n eu meithrin. Mae yna orbryder cynyddol nad ydym yn mynd fawr ddim yn nes at gyflawni'r nodau hyn yn ddigon cyson.

Mae arnom angen datrysiad brys i:

- bryderon cynyddol am effeithiolrwydd a chynaliadwyedd cyffredinol gwasanaethau maethu yng Nghymru;
- pwysau ar leoliadau a'n hanallu cyfredol ni i baru anghenion ac opsiynau lleoli yn ddigon da; ac
- anawsterau recriwtio gofalwyr maeth a darparu'r ystod o sgiliau a chefnogaeth iddynt sydd eu hangen ar gyfer y gwaith cymhleth a llawn her y maent yn ei wneud.

Er enghraifft, nododd ymchwil a gyhoeddwyd gan y Rhwydwaith Maethu yn 2015 yr angen am 550 o deuluoedd gofal maeth ychwanegol yng Nghymru. Dros y tair blynedd diwethaf, mae cyfanrif y lleoliadau maeth cyffredinol ledled Cymru gyfan wedi gostwng flwyddyn ar ôl blwyddyn. Yn yr un cyfnod, mae yna ostyngiad wedi bod yn nifer y lleoliadau a wnaed â gofalwyr maeth awdurdodau lleol a chyda Darparwyr Annibynnol. O ystyried mai oed cyfartalog gofalwyr maeth yng Nghymru yw 55, bydd arnom angen recriwtio mwy o ofalwyr 'dim ond i aros yn eu hunfan' ond mae'n ymddangos bod ymgyrchoedd recriwtio lleol wedi cael effaith gymharol fechan. Gwyddom, wrth gwrs, am ymdrechion sylweddol i ganfod ffyrdd mwy arloesol o weithio, i fynd i'r afael â rhai o'r problemau mawrion hyn. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod yna ormod o fentrau da nad oes ganddynt ddigon o dyniant ac na chânt eu defnyddio'n unffurf ledled Cymru, efallai oherwydd na chânt eu cydgysylltu'n ddigon da neu'u cefnogi'n gyson yn ystod amseroedd anodd.

Mae yna gonsensws clir wedi dod i'r golwg bod rhagor o gynnydd yn dibynnu ar Gymru'n datblygu bwriad strategol llawer mwy argyhoeddiadol a chymhellol yn gysylltiedig â gwasanaethau maethu, i roi sylw i bryderon cynyddol am eu heffeithiolrwydd a'u cynaliadwyedd cyffredinol. Mae'n debygol y bydd parhau â'r status quo yn creu sefyllfa a nodweddir yn bennaf gan ddirywiad wedi'i reoli, yn enwedig pan fo'r cyd-destun gweithredol ac ariannol ar gyfer gwasanaethau plant sy'n derbyn gofal yn ei gyfanrwydd yn debygol o fod yn anodd iawn yn y dyfodol rhagweladwy. Dyma pam mae llawer o randdeiliaid allweddol yn hyrwyddo'n gryf yr angen am fwy o gydweithredu wrth gyflenwi gwasanaethau maethu ledled yr holl sectorau a pham eu bod yn gweld datblygu Fframwaith Maethu Cenedlaethol yn flaenoriaeth fawr. Yn 2015, daethant ynghyd i ddatblygu'r cysyniad hwn, gan gael eu cymell gan egwyddorion cyd-gynhyrchu.

Daeth y gyd-fenter hon yn un o'r pedair ffrwd gwaith allweddol mawrion o fewn rhaglen y Grŵp Llywio Strategol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru â'r gorchwyl o 'Wella Canlyniadau i Blant'. Mae'r Grŵp yn ceisio bwrw ymlaen â'r agenda bolisi a orchmynnir yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, ynghyd â'r Codau Ymarfer yn Rhan 6 y Ddeddf, fydd â goblygiadau sylweddol iawn ar gyfer y ffordd y darperir gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal.

Sefydlwyd grŵp cyfeirio ar gyfer Fframwaith Maethu Cenedlaethol. Un o'i orchwylion allweddol oedd cynhyrchu papur 'Barn Gychwynnol' – a amlinellodd yr achos dros newid, a nododd sut y gallwn gyflawni gwell partneriaeth ledled y gwahanol sectorau ac a gyflwynodd syniadau cychwynnol am yr hyn y gellir ei gyflawni'n fwyaf effeithiol ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Er mwyn cael darlun cyffredinol o'r rhaglen waith hyd yn hyn, mae'r papur hwn yn ddogfen gyfeirio bwysig.

Yn dilyn hynny, cafwyd rhaglen ymgynghori eang ei chwmpas, yn seiliedig yn rhannol ar gael ymateb i'r papur –

gan ddarparu cyfleoedd i ymgysylltu â llawer o bobl (yn unigol ac mewn grwpiau). Trefnasom:

- arolygon ar-lein i ofalwyr maeth a staff ym mhob sector, gydag arweinyddiaeth oddi wrth y Rhwydwaith Maethu ac awdurdodau lleol;
- gweithdai gyda phobl ifanc, a ddarperir gan Voices From Care;
- presenoldeb mewn fforymau a chyfarfodydd presennol i gyfarfod yn uniongyrchol â gofalwyr a darparwyr; a
- digwyddiad Cymru gyfan ar gyfer rheolwyr a staff awdurdodau lleol, a phartneriaid yn y sector cyhoeddus. Darparwyd arweinyddiaeth ar gyfer y digwyddiad hwn gan Cymdeithas ar gyfer Maethu a Mabwysiadu Cymru (AFA Cymru).

Mae canlyniadau rhaglen waith y Fframwaith Maethu Cenedlaethol ar gyfer 2015/16, yn cynnwys negeseuon o'r ymarferion ymgynghori, wedi'u tynnu ynghyd yn yr Adroddiad Cam Cyntaf hwn.

Cydnabuwyd yr achos dros newid a gyflwynwyd ym mhapur Barn Gychwynnol bron yn llwyr, a chytundeb y dylid sefydlu Fframwaith Perfformiad Cenedlaethol. Roedd hyn yn adlewyrchu graddfa pryderon pobl a hefyd yr angen i gefnogi newid effeithiol, gan fynd i'r afael â rhai o newidiadau mawrion y gellir rhoi sylw iddynt ond ar lefel strategol. Derbyniasom gyfoeth o syniadau, barn a safbwyntiau ynglŷn â pha fath o Fframwaith Maethu Cenedlaethol sydd ei angen a'i elfennau tebygol: mwy o gydgysylltu; mwy o welliannau dan arweiniad sectorau; modd o fesur, monitro a gwella perfformiad a rheoli adnoddau; mwy o atebolrwydd a chwilio am ddarbodion maint, ble y bo'n briodol. Dywedodd pobl wrthym y dylai fod yn gynhwysfawr ac yn ddyheadol, yn gydweithredol ac yn gynhwysol – modd o sicrhau bod pryderon sy'n hysbys yn cael sylw, a modd o gyflwyno mwy o gysondeb heb aberthu'r cryfderau a'r amrywiaeth sy'n gydnabyddedig o fewn y gyfundrefn gyfredol.

Yn anad dim, fe gydnabuwyd fod Fframwaith Maethu Cenedlaethol ond yn gyfrwng i gyflawni a bod arnom angen dilyn tri nod cyffredin:

i. gwarantu y gwelir fod maethu'n wasanaeth hanfodol ac o ansawdd a ddarperir i blant unigol ac er budd cymdeithas drwyddi draw;
ii. sicrhau bod gofalwyr maeth yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn cael eu cefnogi gan eu gwasanaeth maethu a gennym i gyd; a
iii. galluogi pawb i gydweithio'n effeithiol i helpu plant mewn gofal maeth i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl, yn cynnwys iechyd da a lefelau uchel o gyrhaeddiad addysgol.

Mae'n rhaid inni ganfod ffyrdd o gyflenwi Fframwaith Maethu Cenedlaethol Cam 2. Mae yna fomentwm go iawn yn tyfu na allwn fforddio'i golli drwy'n dwylo. Mae'n debygol y bydd y rhaglen waith ar gyfer y cam nesaf yn golygu datblygu cyfres eglur o gynigion a chynllun gweithredu amlinellol ar gyfer yr hyn y dylai Fframwaith Perfformiad Cenedlaethol ymdebygu iddo, y strwythurau a'r mecanweithiau a'r adnoddau sy'n ofynnol i'w sefydlu. Bydd angen i'r cynigion ystyried pa agweddau o'r gwasanaeth a gyflenwir orau ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Bydd hyn yn adeiladu ar y meysydd gweithredu blaenoriaethol a amlinellir ar ddiwedd yr Adroddiad hwn.

Bydd y gwaith yn golygu:

– Datblygu fframwaith y cytunwyd arno ar gyfer dyrannu cyfrifoldebau ar lefelau awdurdodau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol a dechrau rhoi ar waith y strwythurau priodol (dysgu oddi wrth y dull gweithredu a ddefnyddiwyd wrth sefydlu'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol)
– Creu fframwaith rheoli adnoddau a pherfformiad
– Sefydlu hunaniaeth Gymreig ar gyfer Gofal Maeth, dull cenedlaethol o weithredu tuag at farchnata a defnyddio cyfryngau cymdeithasol
– Datblygu fframwaith polisi cenedlaethol ar gyfer gofal maeth, i gynnwys strwythur ar gyfer hyfforddi gofalwyr maeth
– Dechrau ar brosiect i greu mwy o gysondeb a thryloywder yn y ffioedd a'r lwfansau y mae gofalwyr yn eu derbyn
– Rhoi sylw i'r materion a godwyd yn y papur cwmpasu cychwynnol ar Ofal Maeth gan Berthnasau
– Llunio strategaethau ar gyfer comisiynu lleoliadau rhwng awdurdodau lleol, gyda'r sector annibynnol (darparwyr masnachol) a darparwyr annibynnol (trydydd sector).

Os yw datblygu Fframwaith Maethu Cenedlaethol am wella canlyniadau i blant a phobl ifanc a chefnogaeth i ofalwyr maeth, mae'n rhaid inni ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, gofalwyr maeth, staff yn y sector annibynnol a'r trydydd sector, a staff awdurdodau lleol a'u partneriaid mewn gwasanaethau cyhoeddus yn y rhaglen waith ar gyfer Cam Dau. Mae'n rhaid rhoi ystyriaeth i sut y gellir cyflawni hyn orau. Yn anad dim, mae ar brif lunwyr penderfyniadau ac arweinwyr angen penderfynu a ydynt yn fodlon ymrwymo i sefydlu Fframwaith Cenedlaethol fel y ffordd orau o ymateb i'r pryderon a'r dyheadau a fynegwyd mewn ffordd unedig iawn gan yr ystod eang o randdeiliaid a gymerodd ran yn yr ymarferion ymgynghori.

## ARGYMHELLION

| Argymhellion | Tystiolaeth | Cyflawni |
|---|---|---|
| 1. Datblygu Fframwaith Maethu Cenedlaethol, yn cynnwys dyrannu swyddogaethau ar lefelau awdurdodau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol a dechrau rhoi ar waith y strwythurau priodol. | Mynegwyd cefnogaeth i Fframwaith Maethu Cenedlaethol gan bob rhanddeiliad allweddol yn ystod y rhaglen ymgynghori, gyda barn gyson yn dod i'r golwg ynglŷn â pha elfennau o'r gwasanaeth maethu y gellid eu cyflawni orau ar sail genedlaethol, ranbarthol a lleol. | Blwyddyn Un |
| 2. Sefydlu'r cydbwysedd cywir rhwng gofal maeth awdurdodau lleol, darparwyr trydydd sector a darparwyr masnachol o ran amcanion polisi cenedlaethol, ystyriaethau ansawdd y gwasanaeth a gofynion gwerth am arian. | Mae yna bryder sylweddol am y ffordd y mae'r 'farchnad' gyfredol yn gweithredu yn ymarferol. Nid yw'n creu'r nifer a'r mathau cywir o leoliadau, gan ddarparu gwerth gorau am y buddsoddiad o adnoddau cyhoeddus. Mae Rhan 2, Adran 16 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn gofyn am ragor o ystyriaeth ynglŷn â rôl mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol gwasanaethau a arweinir gan y defnyddwyr a'r trydydd sector wrth ddarparu gwasanaethau maethu. | Blwyddyn Dau |
| 3. Sefydlu corff cydweithredol i Gymru gyfan ar gyfer maethu fel gwasanaeth cyhoeddus, sy'n darparu gwasanaethau'n rhanbarthol ac yn lleol, gan ymgorffori'r holl wasanaethau perthnasol a ddarperir yn uniongyrchol gan awdurdodau lleol. | Mae gwasanaethau maethu'r awdurdodau lleol wedi colli tir dros yr ugain mlynedd diwethaf i'r sector masnachol. Er mwyn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng y sectorau, mae'n bwysig bod gan wasanaethau maethu awdurdodau lleol gymaint o gyfarpar â phosibl i ddiwallu anghenion plant ar gyfer lleoliadau lleol a reolir yn gyhoeddus. | Blwyddyn Tri |
| 4. Cynhyrchu fframwaith polisi cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau maethu i gynnwys hyfforddi a chefnogi gofalwyr maeth. | Neges gref a ddaeth oddi wrth y rhaglen ymgynghori oddi wrth ofalwyr maeth a staff oedd yr angen am bolisïau mwy cyffredin ledled Cymru. Roedd hyfforddi gofalwyr maeth, ar ôl cymeradwyo a chefnogaeth i ofalwyr yn faterion a grybwyllwyd yn aml. | Blwyddyn Dau |
| 5. Cyflwyno fframwaith perfformiad ac adnoddau cenedlaethol, gan gysoni hyn â'r gwaith a wneir i gyflawni Gwasanaeth Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS). Bydd dull gweithredu fesul cam wrth weithredu'n cael ei ddatblygu. Dylid datblygu fframwaith perfformiad gwahanol ar gyfer y sector annibynnol (darparwyr masnachol a darparwyr trydydd sector). | Gwnaeth y gwaith yng Ngham Un ddarparu tystiolaeth eglur ynglŷn â chyn lleied a wyddys am berfformiad a darparu adnoddau i wasanaethau maethu ledled Cymru a bod yr hyn rydym yn ei wybod yn dameidiog. Ystyrir fod gwaith ar fframwaith perfformiad a darparu adnoddau'n hanfodol i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd a roddir gan weithredu Gwasanaeth Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS). | Blwyddyn Un |
| 6. Cyflwyno gwefan genedlaethol, cyfryngau cymdeithasol, brand a hunaniaeth ar gyfer gofal maeth yng Nghymru i danategu strategaeth farchnata ar gyfer recriwtio gofalwyr maeth a gwella cyfathrebu. | Roedd yr angen i gael hunaniaeth Cymru gyfan ar gyfer maethu yn neges gref iawn oddi wrth staff awdurdodau lleol ac eraill yn ystod y rhaglen ymgynghori. Gwelwyd hyn fel mecanwaith allweddol i wella'r gallu i gyfathrebu'n dda â gofalwyr maeth cyfredol a phlant ac i annog recriwtio a chadw gafael. | Blwyddyn Un |

## ARGYMHELLION

| Argymhellion | Tystiolaeth | Cyflawni |
|---|---|---|
| 7. Sicrhau mwy o gysondeb yn y defnydd o Ofal Maeth gan Berthynas i blant sy'n derbyn gofal, gan adeiladu ar y papur cwmpasu cychwynnol o Gam Un. | Roedd y materion yn ymwneud â gofal maeth gan berthynas yn negeseuon cryf iawn o'r rhaglen ymgynghori. Nodwyd defnydd anghyson o ofal maeth gan berthynas ac amrywiaeth o ymagweddiadau arferion drwy'r gwaith yng Ngham Un. Paratowyd papur materion, oedd yn nodi'r buddion y gellid eu hennill o ddatblygu dull gweithredu mwy cenedlaethol. | Blwyddyn Un |
| 8. Datblygu trefniadau cenedlaethol ar gyfer comisiynu pob lleoliad, ni waeth beth fo'r sector ond adeiladu ar waith y 4C (Consortiwm Comisiwn Plant Cymru). | Ychydig o gynnydd sydd wedi'i wneud ar y gwaith o baru ar sail Cymru gyfan, anghenion lleoliadau a'r opsiynau sydd ar gael, yn rhannol oherwydd rydym eto i ddatblygu offer priodol ar gyfer comisiynu. | Blwyddyn Un |

| Argymhellion | Tystiolaeth | Cyflawni |
|---|---|---|
| 9. Cydgordio polisïau ar gyfer talu ffioedd a lwfansau i ofalwyr maeth awdurdodau lleol. | Nodwyd talu lwfansau a ffioedd gofal maeth gan ofalwyr maeth a staff fel mater allweddol yn ystod y rhaglen ymgynghori. Gwelwyd yr angen am fwy o gysondeb a thryloywder fel materion allweddol. Cydnabuwyd y bydd hyn yn rhoi heriau neilltuol ond na ddylid anwybyddu'r mater. | Blwyddyn Tri |
| 10. Meincnodi arferion gorau mewn rhianta corfforaethol ledled Cynghorau a gwasanaethau cyhoeddus eraill – i wella canlyniadau i blant ac i gynyddu cadernid lleoliadau gofal maeth. | Roedd yna lawer o enghreifftiau o blant mewn gofal maeth yn cyflawni canlyniadau da o ganlyniad i brofiadau teuluol positif ar y cyd â chymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol, addysg, iechyd, tai a gweithwyr proffesiynol eraill. Fodd bynnag, mynegodd pobl ifanc a gofalwyr maeth bryderon cryfion am gefnogaeth anwadal ac annigonol. | Blwyddyn Un |

# Blwyddyn Un 2016-17: Cynllun Prosiect Drafft

| Gweithred sydd ei hangen | Y Prif Gyfrifoldeb | Amserlen |
|---|---|---|
| Sicrhau parhad y grant oddi wrth Lywodraeth Cymru gyfer Cam Dau a rhoi ar waith capasiti rheoli prosiectau i fwrw ymlaen â'r gwaith. | Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Leol | Mehefin 2016 |
| Cytuno ar drefniadau llywodraethu i fwrw ymlaen â rhaglen waith Cam 2, yn cynnwys cael y Partneriaethau Rhanbarthol i gymryd rhan. | Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Leol, CLILC, ADSS Cymru, Y Rhwydwaith Maethu, AFA Cymru | Mehefin 2016 |
| Ystyried trefniadau ar gyfer cynnwys plant a phobl ifanc a gofalwyr maeth yng Ngham Dau. | Voices from Care, Y Rhwydwaith Maethu, AFA Cymru | Gorffennaf 2016 |
| Cryfhau'r trefniadau ar gyfer cynnwys iechyd (yn cynnwys Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed) ac addysg yng ngwaith Cam Dau. | Aelodau cyfredol y Grŵp Cyfeirio | Gorffennaf 2016 |
| Cryfhau'r trefniadau ar gyfer cynnwys darparwyr yn y gwaith i ddatblygu Fframwaith Maethu Cenedlaethol. | Bwrdd Consortiwm Comisiwn Plant Cymru, Darparwyr Trydydd Sector | Gorffennaf 2016 |
| Datblygu Fframwaith Maethu Cenedlaethol a set fanwl o gynigion gan adeiladu ar yr holl argymhellion yn yr adroddiad hwn.<br>• Penderfynu ar ddyrannu swyddogaethau ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol ac awdurdod lleol a dechrau rhoi ar waith y strwythurau priodol.<br>• Cyflwyno fframwaith perfformiad ac adnoddau cenedlaethol interim, a chysoni hyn â'r gwaith a wneir i gyflawni Gwasanaeth Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS). Bydd dull o weithredu fesul cam tuag at weithredu yn cael ei ddatblygu. Dylid datblygu fframwaith perfformiad gwahanol ar gyfer y sector annibynnol (darparwyr masnachol a darparwyr trydydd sector). | Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Leol, CLILC, ADSS Cymru, Y Rhwydwaith Maethu, AFA Cymru, Consortiwm Comisiwn Plant Cymru, Gwasanaethau Cyhoeddus Cysylltiedig | <br><br>Mehefin<br><br>Hydref 2016 |

| Gweithred sydd ei hangen | Y Prif Gyfrifoldeb | Amserlen |
|---|---|---|
| • Cyflwyno gwefan genedlaethol, cyfryngau cymdeithasol, brand a hunaniaeth ar gyfer gofal maeth yng Nghymru i danategu strategaeth farchnata ar gyfer recriwtio gofalwyr maeth a gwella cyfathrebu.<br>• Sefydlu cynllun ar gyfer corff maethu cydweithredol sy'n wasanaeth cyhoeddus yng Nghymru gyfan, gan ddarparu gwasanaethau'n rhanbarthol ac yn lleol, gan ymgorffori'r holl wasanaethau perthnasol a ddarperir yn uniongyrchol gan awdurdodau lleol.<br>• Penderfynu sut i sicrhau mwy o gysondeb yn y defnydd o Ofal Maeth gan Berthynas i blant sy'n derbyn gofal, gan adeiladu ar y papur cwmpasu cychwynnol o Gam Un.<br>• Cynnal arferiad mapio ar y ffioedd a'r lwfansau y mae gofalwyr yn eu derbyn mewn awdurdodau lleol, darparwyr annibynnol (masnachol) a darparwyr annibynnol (trydydd sector).<br>• Cytuno ar drefniadau cenedlaethol ar gyfer comisiynu pob lleoliad, ni waeth beth fo'r sector ond adeiladu ar waith Consortiwm Comisiwn Plant Cymru.<br>• Meincnodi arferion gorau mewn rhianta corfforaethol ledled Cynghorau a gwasanaethau cyhoeddus eraill – i wella canlyniadau i blant ac i gynyddu cadernid lleoliadau gofal maeth. | Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Leol, CLILC, ADSS Cymru, Y Rhwydwaith Maethu, AFA Cymru, Consortiwm Comisiwn Plant Cymru, Gwasanaethau Cyhoeddus Cysylltiedig | Rhagfyr 2016<br><br>Rhagfyr 2016<br><br>Rhagfyr 2016<br><br>Chwefror 2017<br><br>Mawrth 2017<br><br>Ionawr 2017 |
| Sicrhau cymeradwyaeth gan lunwyr polisi a llunwyr penderfyniadau allweddol i fwrw ymlaen â'r cynigion. | Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Leol, CLILC, ADSS Cymru, Y Rhwydwaith Maethu, AFA Cymru | Medi 2016 ac yn parhau |

# Beth yw'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol?

**Datblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau maethu yw un o'r pedair ffrwd gwaith allweddol sylweddol yn y rhaglen a sefydlwyd gan y Grŵp Llywio Strategol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru â'r gorchwyl o 'wella canlyniadau i blant'.**

Mae arnom angen system yng Nghymru lle mae pob plentyn a pherson ifanc a faethir yn:

- cael ei ddarparu â sicrwydd a sefydlogrwydd yn eu cartref maeth;
- cael eu helpu i wneud ac i gynnal perthnasoedd;
- cael eu cefnogi aros tan eu bod yn barod i adael; ac yn
- cael eu helpu i gyrraedd eu potensial.

Yn yr un modd, mae pob gofalwr maeth yn haeddu:

- cael eu parchu fel cydweithiwr gofal plant proffesiynol;
- cael yr holl wybodaeth y mae arnynt ei hangen i ofalu am bob plentyn yn iawn;
- cael eu cynnwys yn llawn wrth lunio penderfyniadau; a
- chael eu grymuso i wneud penderfyniadau beunyddiol priodol yn ymwneud â'r plant yn eu gofal.

*"Gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc"*



# Papur 'Barn Gychwynnol'

| | |
|---|---|
| 'First Thoughts' Paper **ENGLISH** | Papur 'Barn Gychwynnol' **CYMRAEG** |
| 'Context Appendix 1' **ENGLISH** | 'Cyd-destun Atodiad 1' **CYMRAEG** |

## Tachwedd 2015: Beth oedd o? A Beth a Ddywedodd o?

I gael golwg ar Bapur 'Barn Gychwynnol' a Phapur cysylltiedig Cyd-destun Atodiad 1, cliciwch ar eich dewis iaith, os gwelwch yn dda:

### AMCANION Y FFRAMWAITH MAETHU CENEDLAETHOL: BETH YDYNT?

- Gwelliannau i gynllunio dyfodol parhaol i blant ac ansawdd darpariaeth lleoliadau
- Bwriad strategol mwy argyhoeddiadol a chymhellol ar gyfer gwasanaethau maethu
- Mwy o gydweithredu a chydweithio gan bob rhanddeiliad allweddol
- Gwelliannau dan arweiniad y sectorau
- Mwy o dryloywder ynglŷn â pherfformiad gwasanaethau maethu a defnyddio adnoddau'n effeithlon
- Darbodion maint, ble bo'n briodol, o safbwynt lleoliaeth
- Mwy o gynllunio a chomisiynu gwasanaethau ar y cyd
- Defnydd cyson o fodelau arferion gorau i recriwtio ac i gefnogi gofalwyr maeth ledled yr holl sectorau
- Cysylltiadau agosach ag ymchwil a gwerthuso

### HERIAU POLISI AC ARFERION: BETH YDYNT?

- Canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar ac atal
- Gwella'r ddarpariaeth o leoliadau parhaol i blant
- Rhoi sylw i achosion gwaelodol y gwahaniaethau annerbyniol yng nghyfraddau'r plant a ddaw i dderbyn gofal yng Nghymru
- Darparu a chomisiynu cymysgedd hyblyg a fforddiadwy o leoliadau o ansawdd uchel
- Gwella canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal
- Lleolir dros 1,000 o blant y tu allan i'w hardal leol
- Recriwtio, cefnogi a hyfforddi gofalwyr maeth a all ddarparu gofal o ansawdd uchel i blant ag anghenion cymhleth ac ymddygiad heriol
- Poblogaeth o ofalwyr maeth sy'n heneiddio

### CYNIGION AMLINELLOL AR GYFER DULL CENEDLAETHOL, RHANBARTHOL A LLEOL O WEITHREDU

**Lefel Genedlaethol:**
- Fframwaith perfformiad cenedlaethol i ddarparu dadansoddiad o berfformiad ledled Cymru gan bob darparwr
- Hyrwyddo dull strategol o weithredu tuag at gyflawni gwasanaethau
- Cydgysylltu gweithgaredd farchnata
- Datblygu cysylltiadau strategol â phartneriaid a darparwyr gwasanaethau
- Sefydlu gwefan genedlaethol

**Lefel Ranbarthol:**
- Paneli Maethu
- Sefydlu marchnadoedd mewnol rhwng awdurdodau lleol ym mhob rhanbarth
- Strategaethau marchnata rhanbarthol
- 'Drws ffrynt' rhanbarthol i ymateb i ymholiadau cychwynnol
- Datblygu polisïau cyffredin
- Hyfforddiant rhanbarthol cyn ac ôl cymeradwyo
- Dulliau rhanbarthol o weithredu tuag at 'Pan Fyddaf yn Barod'

**Lefel Leol:**
- Lleoli a pharu plant a phobl ifanc
- Goruchwylio a chefnogi gofalwyr maeth
- Adolygiadau blynyddol o ofal maeth
- Cyfrifoldebau llunwyr penderfyniadau asiantaethau
- Asesiadau maethu llawn
- Asesiadau Gofalwyr Maeth sy'n Berthnasau

# Y Rhaglen Waith ar gyfer Cam Un

## BETH A DDYWEDASOM Y BYDDEM YN EI WNEUD YNG NGHAM UN?

- Sicrhau adnoddau ar gyfer y prosiect
- Penodi Rheolwr Prosiectau a Rheolwr Cefnogi Busnes ac Adnoddau
- Sefydlu rhaglen waith ar gyfer Cam Un
- Sefydlu Grŵp Cyfeirio i arwain ar raglen helaeth o ymgysylltu ac ymgynghori
- Sefydlu Grŵp Consortiwm i ddarparu trosolwg strategol
- Ymgynghori'n eang ar gyfres gychwynnol o gynigion
- Sicrhau consensws oddi wrth garfan eang o randdeiliaid ar gyfer bwrw ymlaen â model newydd a chreu cynghrair dros newid
- Llunio adroddiad Cam Un i'w gyflwyno i Grŵp Llywio Strategol Llywodraeth Cymru.

## BETH YDYM WEDI'I WNEUD?

- Grant wedi sicrhau. Y gwaith o reolaeth ariannol ar y grant yn cael ei wneud gan adran gyllid Bro Morgannwg
- Y Rheolwr Prosiectau a'r Rheolwr Adnoddau a Pherfformiad yn eu swyddi ac yn cyflawni'r gorchwylion yn y rhaglen waith
- Rhaglen Waith ar waith gydag Adroddiadau Cynnydd misol i'r Grŵp Consortiwm ac i Lywodraeth Cymru
- Sefydlwyd Grŵp Cyfeirio sy'n darparu arweinyddiaeth ar y rhaglen ymgynghori â gwahanol randdeiliaid
- Sefydlwyd Grŵp Consortiwm, cyfarfodydd misol, ac wedi darparu trosolwg strategol ar y gwaith a gwariant grantiau Llywodraeth Cymru
- Consensws yn dod oddi wrth randdeiliaid allweddol ar faterion allweddol sydd angen sylw – mwy o fanylion yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn
- Adroddiad Cam Un yn cael ei gyflwyno gerbron Grŵp Llywio Strategol Llywodraeth Cymru ar yr 16eg o Fawrth, 2016.



# Aelodau'r Grŵp Cyfeirio

| Sefydliad | Enw |
|---|---|
| Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Bro Morgannwg, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru | Philip Evans |
| Cyfarwyddwr Gweithrediadau, Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | Suzanne Griffiths |
| Swyddog Polisi, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | Stewart Blythe |
| Llywodraeth Cymru, Lleoliadau ar gyfer Plant ac Oedolion | Elizabeth Lockwood a Huw Gwyn Jones, yn dirprwyo dros Elizabeth Lockwood |
| Pennaeth Gwasanaethau Plant, Bro Morgannwg | Rachel Evans |
| Meddyg Dynodedig ar gyfer Diogelu/Plant sy'n Derbyn Gofal, Gwasanaeth Diogelu Plant, Iechyd Cyhoeddus Cymru | Y Dr Carolyn Sampeys |
| Rheolwr Consortiwm Comisiwn Plant Cymru | Alison Smale |
| Prif Swyddog Gweithredol, Voices from Care | Debbie Jones a Chris Dunn |
| Rheolwr Cymunedol a Datblygu Busnes ar gyfer Rhwydwaith Maethu Cymru | Maria Boffey |
| Cascade | Y Dr Alyson Rees |
| Consortiwm Rhanbarthol Gogledd Cymru | Sarah Bartlett |
| Gweithredu dros Blant | Stacey Burnett |
| Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed GIG Cymru | Y Dr David Williams |
| AGGCC | Vicky Poole |
| Pennaeth Gwasanaethau Plant, Wrecsam | Susan Evans |
| Pennaeth Gwasanaethau Plant, Blaenau Gwent<br>Cadeirydd Grŵp Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru gyfan (AWHOCS) | Tanya Evans |

| Sefydliad | Enw |
|---|---|
| NYAS Cymru | Sharon Lovell |
| Rheolwr Prosiectau, Cymdeithas ar gyfer Maethu a Mabwysiadu Cymru (AFA Cymru) | Kathy S'Jacob |
| Pennaeth Gwasanaethau Plant, Gwynedd | Marian Hughes (drwy Skype) |
| Maethu Abertawe, Dinas a Chyngor Abertawe | Donna Houlston |
| AIGC Adran Iechyd y Cyhoedd – Iechyd Mamau a Phlant | Y Dr Heather Payne |
| Uned Ddata Cymru | Richard Palmer |
| Iechyd Cyhoeddus Cymru | Karen Toohey |
| Plant yng Nghymru | Catriona Williams |
| Maethu Abertawe , Dinas a Chyngor Abertawe | Karen Benjamin |
| Pennaeth Gwasanaethau Plant, Sir Gaerfyrddin | Stefan Smith |
| Pennaeth Gwasanaethau Plant, Abertawe | Julie Thomas |
| Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol a Thai, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | Naomi Alleyne |
| Cyfarwyddwr Y Rhwydwaith Maethu (Cymru) | Emily Warren |
| Rheolwr Cymorth Busnes ac Adnoddau y Fframwaith Maethu Cenedlaethol | Cath Hywood |
| Rheolwr Prosiectau y Fframwaith Maethu Cenedlaethol | Jane Moore |

# Gwybodaeth am Berfformiad: Gwasanaethau Maethu

## Edrychasom ar ba fesurau perfformiad sydd ar gael yn gysylltiedig â gwasanaethau maethu a'r hyn a ddywed hyn wrthym am y sefyllfa gyfredol.

Daw'r mwyafrif o'n gwybodaeth oddi wrth ddata lefel plant unigol yn gysylltiedig â phlant sy'n derbyn gofal, gwybodaeth a gesglir drwy 'gyfrifiad y plant sy'n derbyn gofal'. Adroddir am ddychweliadau oddi wrth set ddata Plant sy'n Derbyn Gofal (SSDA903) ar ffurf ystadegau gwladol, sy'n darparu gwybodaeth bwysig lefel uchel am niferoedd y plant sy'n derbyn gofal mewn gwasanaethau maethu awdurdodau lleol a darparwyr annibynnol.

Gellir dadansoddi ystadegau gwladol ar lefel awdurdodau lleol unigol er dibenion meincnodi ac maent ar gael i'w defnyddio drwy wefan StatsCymru Llywodraeth Cymru.

Gan edrych ar y darlun o'r gwasanaethau maethu ledled Cymru, canfuom:


## 1. LLEOLIADAU MAETH

Mae ystadegau fel ar yr 31ain o Fawrth, ar gyfer pob blwyddyn, ac nid ydynt yn cynnwys lleoliadau gofal maeth gan berthnasau.

**a) Cyfanrif y plant sy'n derbyn gofal a chyfanrif y plant sy'n derbyn gofal mewn lleoliadau maeth cyffredinol drwy Gymru gyfan**

Plant sy'n derbyn gofal mewn lleoliadau maeth cyffredinol

Cyfanrif y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru





*Dengys data am 2013 – 2015 fod niferoedd cyffredinol y plant sy'n derbyn gofal wedi gostwng ychydig ond bod y mwyafrif o blant sydd angen derbyn gofal yn cael eu lleoli gyda gofalwyr maeth. Er bod nifer cyffredinol y plant sy'n derbyn gofal wedi gostwng, mae newidiadau ym mhrosesau'r llysoedd wedi esgor ar blant yn mynd i ofal ac yn gadael gofal yn gyflymach ac mae yna lefel uchel o alw am leoliadau maeth yn parhau.*

**b) Cyfanrif y plant a leolir gyda gofalwyr maeth awdurdodau lleol a chyda darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol**

Plant a leolir gyda gofalwyr maeth awdurdodau lleol

Plant a leolir gyda darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol




*Mae'r ganran o leoliadau a wneir gyda gofalwyr maeth awdurdodau lleol wedi aros yn gyson ar ychydig o dan ddwy ran o dair o gyfanrif y plant mewn gofal maeth cyffredinol gyda thraean o blant wedi'u lleoli gyda gofalwyr maeth sydd gyda darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol (masnachol a thrydydd sector). Ar hyn o bryd, nid yw gwybodaeth a gesglir am leoliadau na wnaed gyda gofalwyr maeth yr awdurdod lleol ei hun yn gwahaniaethu rhwng plant a leolir ag asiantaethau maethu trydydd sector a phlant a leolir ag asiantaethau maethu masnachol; ac fe'u cofnodir fel lleoliadau gyda darparwyr annibynnol.*

## 2. LLEOLIADAU MAETH Y TU MEWN A'R TU ALLAN I FFINIAU AWDURDODAU LLEOL

Mae'r holl ystadegau fel ar yr 31ain o Fawrth ac nid ydynt yn cynnwys gofal maeth gan berthnasau.

Ble y bo'n bosibl, lleolir plant o fewn ffin eu hawdurdod lleol er mwyn cynnal cysylltiadau â'u teulu, cyfeillion, ysgol a'u cymuned, hyrwyddo sefydlogrwydd i'r plentyn a chynnal eu hunaniaeth. Dengys ystadegau gwladol fod gennym nifer sylweddol o blant wedi'u lleoli gyda gofalwyr maeth sy'n byw y tu allan i ffin yr awdurdod lleol.

**a) Ystadegau Cymru gyfan am 2015**

O gyfanswm o 3,405 o blant mewn lleoliad gyda gofalwyr maeth cyffredinol, roedd yna 1,040 wedi'u lleoli y tu allan i ffiniau'r awdurdod lleol ac roedd 2,365 wedi'u lleoli y tu mewn i ffiniau'r awdurdod lleol.


*Gall rhai lleoliadau y tu allan i'r awdurdod lleol cartref ddal i fod yn ddaearyddol agos at eu hysgol, eu cymuned a phobl arwyddocaol yn eu bywyd. Mae awdurdodau lleol yn ymdrechu i leoli plant o fewn pellter rhesymol ond gall mynediad at wasanaethau sy'n croesi ffiniau awdurdodau ar gyfer iechyd ac addysg fod yn anghyson gan arwain at heriau o ran darparu cefnogaeth briodol i blentyn a'i ofalwr maeth.*

**b) Fel ar yr 31ain o Fawrth, 2015**

Ledled Cymru i gyd, roedd gennym gyfanswm o 1,040 o blant wedi'u lleoli y tu allan i ffiniau awdurdodau lleol. Roedd 330 o'r lleoliadau hynny gyda gofalwyr maeth awdurdodau lleol ac roedd 710 o leoliadau gyda gofalwyr maeth darparwyr annibynnol (masnachol a thrydydd sector).

*Gyda thros 58% o blant gyda gofalwyr maeth darparwyr annibynnol (masnachol a thrydydd sector) yn byw y tu allan i ffin yr awdurdod lleol, mae yna fwy o siawns wrth gomisiynu lleoliad gan ddarparwr annibynnol o beidio â chael lleoliad yn y gymuned leol.*


**Siart a)**




**Allwedd**

- Plant a leolir y tu allan i ffiniau awdurdod lleol
- Plant a leolir y tu mewn i ffiniau awdurdod lleol

**Siart b)**




**Allwedd**

- Plant a leolir gyda gofalwyr asiantaeth annibynnol
- Plant a leolir gyda gofalwyr maeth awdurdod lleol


## 3. GOFAL MAETH GAN BERTHYNAS

Gofalir am rai plant sy'n derbyn gofal gan aelod agos o'r teulu neu gyfaill o dan drefniadau maethu. Caiff gofalwyr maeth sy'n berthnasau eu hasesu a'u cymeradwyo gan wasanaethau maethu awdurdodau lleol, sy'n parhau i ddarparu goruchwyliaeth a chefnogaeth am gyhyd ag y mae'r plentyn yn eu gofal a'u bod yn ofalwyr maeth cofrestredig.

Mae niferoedd y gofalwyr maeth sy'n berthnasau'n amrywio ym mhob un awdurdod lleol, ond i rai awdurdodau lleol, gall asesu a chynnal y trefniadau roi pwysau sylweddol ar y gwasanaeth maethu.

Mae ystadegau Cymru gyfan fel ar yr 31ain o Fawrth bob blwyddyn.

**a) Cyfanrif y plant a leolir gyda gofalwyr maeth sy'n berthnasau**




*Dros y 10 mlynedd diwethaf, mae nifer y plant a leolwyd gyda gofalwyr maeth sy'n berthnasau wedi cynyddu 23%. Fodd bynnag, er 2010, mae'r nifer wedi sefydlogi, ac yn y tair blynedd ddiwethaf, mae wedi aros ar 25% o gyfanrif y plant mewn gofal maeth.*



# Ffynonellau Cyfredol o Wybodaeth

Er mwyn deall sut mae gwasanaethau maethu'n perfformio ac i hysbysu cynigion ar gyfer datblygu Fframwaith Perfformiad ac Adnoddau Cenedlaethol, roedd arnom angen gwybod pa wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd am berfformiad gwasanaethau maethu a sut y defnyddir hyn.

**BETH YW FFYNONELLAU'R WYBODAETH HON?**

**BETH A GAWN NI O BLE?**

**SUT Y DEFNYDDIR YR WYBODAETH?**

| Ffynhonnell y Data | Sefydliad sy'n Cyhoeddi | Amledd y Casglu | Lleoliad | Cyfnod cyfeirio'r data | Sut y defnyddir y data ar hyn o bryd |
|---|---|---|---|---|---|
| Ystadegau Gwladol – Plant sy'n derbyn gofal (SSDA903) | Llywodraeth Cymru | Blynyddol | https://statswales.wales.gov.uk/ | 31ain o Fawrth am bob blwyddyn | Mae'n darparu gwybodaeth ystadegol genedlaethol a lleol am y dangosyddion perfformiad ar gyfer Llywodraeth Cymru. Maent ar gael i'r cyhoedd ac fe'u defnyddir i gynghori Gweinidogion, i feincnodi gwasanaethau awdurdodau lleol ac mewn ymchwil ac astudiaethau academaidd. |
| Adroddiad: Mabwysiadau, canlyniadau a lleoliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol. | Llywodraeth Cymru | Blynyddol | https://gov.wales/statistics-and-research/adoptions-outcomes-placements-children-looked-after/ | Y cyfnod a gwmpasir yw'r flwyddyn sy'n gorffen ar yr 31ain o Fawrth, gyda dyddiad cyhoeddi adroddiad yn y mis Medi canlynol. | Ar gael i'r cyhoedd. Adroddiad blynyddol sy'n rhoi gwybodaeth am y rheiny ar orchmynion gofal a phlant eraill a ddarperir â llety gan eu hawdurdod lleol. Cyflwynir gwybodaeth ystadegol ar sail Cymru gyfan gyda rhywfaint o gyd-destun ond dim dadansoddiad. |
| Adroddiad Arolygu gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru | AGGCC | Blynyddol | http://cssiw.org.uk/our-reports/regulated-reports/ | Y cyfnod a gwmpasir yw'r 12 mis ers yr Arolygiad Maethu diwethaf. | Ar gael i'r cyhoedd. Fe'i defnyddir ar lefel leol gan y gwasanaethau maethu i hysbysu datblygiad y gwasanaeth, gan gomisiynwyr ac fe'i defnyddir hefyd gan ddarpar ofalwyr maeth wrth ystyried y gwasanaeth maethu o'u dewis. |
| Adroddiad Ansawdd Gofal ar gyfer Gwasanaethau Maethu | Darparwr Gwasanaeth Maethu Unigol | Blynyddol | Lleoliadau amrywiol – mae gan rai darparwyr maethu yr Adroddiad Ansawdd Gofal ar gael drwy'u gwefan ac mae rhai wedi lanlwytho'r ddogfen ar gronfa ddata Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant. | Y cyfnod a gwmpasir yw'r 12 mis ers y cwblhawyd yr Adroddiad Ansawdd Gofal diwethaf. | Ar gael i'r cyhoedd. Fe'i defnyddir ar lefel leol gan y gwasanaethau maethu i roi tystiolaeth o'r gofynion o dan reoliad 42 Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003 a gweithgareddau'r gwasanaeth. |

| Ffynhonnell y Data | Sefydliad sy'n Cyhoeddi | Amledd y Casglu | Lleoliad | Cyfnod cyfeirio'r data | Sut y defnyddir y data ar hyn o bryd |
|---|---|---|---|---|---|
| Adroddiad Llinell Sylfaen Consortiwm Comisiwn Plant Cymru | Consortiwm Comisiwn Plant Cymru | Adroddiadau chwarterol sydd wedyn yn hysbysu adroddiad blynyddol. | Dosbarthwyd i holl awdurdodau lleol Cymru gan Gonsortiwm Comisiwn Plant Cymru. | Cwmpasir y flwyddyn ariannol o'r 1af o Ebrill – 31ain o Fawrth. | Mae adroddiadau llinell sylfaen yn cwmpasu gweithgareddau lleoliadau maeth gyda gofalwyr maeth awdurdodau lleol a chyda darparwyr annibynnol (masnachol a thrydydd sector) ar sail Cymru gyfan ac fe'i dadansoddir i lefel awdurdodau lleol unigol. Gellir eu defnyddio gan awdurdodau lleol i gymharu safleoedd y farchnad. |
| Darparwyr Gwasanaethau Maethu | Gwasanaethau Maethu Awdurdodau Lleol, Gwasanaethau Maethu Trydydd Sector a Gwasanaethau Maethu'r Sector Masnachol | Ni wyddys | Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau maethu'n cynnal eu systemau rheoli perfformiad eu hunain. | Ni wyddys | Mae gwasanaethau maethu'n casglu gwybodaeth am reoli perfformiad fel rhan o ofynion rheoliadol yn ogystal â dangosyddion o'u perfformiad eu hunain ar gyfer adrodd am drefniadau o fewn y sefydliad. |

# Sut mae ein perfformiad cyfredol yn ymddangos?

Mae ffynonellau cyfredol o wybodaeth am berfformiad gwasanaethau maethu'n dameidiog ac weithiau'n anodd cael atynt. Mae gennym anghysondeb ym mha beth ac o ran sut rydym yn casglu gwybodaeth.


Ar lefel genedlaethol a lleol, mae gennym ystadegau sy'n darparu gwybodaeth am y niferoedd a'r mathau o leoliadau, p'un ai a yw plant wedi'u lleoli o fewn ffiniau'r awdurdod lleol a niferoedd o symudiadau lleoliad. Mae gennym rai dangosyddion o drefniadau comisiynu sydd gan awdurdodau lleol gyda darparwyr maethu eraill a rhywfaint o wybodaeth am adnoddau a gwariant awdurdodau lleol ar wasanaethau maethu.

**a) Cymru gyfan**

Mae ystadegau fel ar yr 31ain o Fawrth ac maent yn cynnwys data am ofalwyr maeth sy'n berthnasau.

Plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol

Plant mewn lleoliadau gofal maeth





*Gwyddom nad yw nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi gostwng yn sylweddol ledled Cymru a bod y mwyafrif o blant yn derbyn gofal o fewn trefniant maethu. Dros y tair blynedd diwethaf, roedd o leiaf 75% o gyfanrif y plant oedd yn derbyn gofal yn derbyn gofal gan ofalwyr maeth oedd wedi'u cymeradwyo.*

**b) Cymru gyfan**

Mae ystadegau fel ar yr 31ain o Fawrth.

Plant sy'n derbyn gofal gan ofalwyr maeth cyffredinol

Plant sy'n derbyn gofal gan ofalwyr maeth sy'n deulu a chyfeillion





*Pan na ellir gofalu am blentyn gan ei riant ac mae angen cael trefniadau amgen, aelodau'r teulu yw'r opsiwn gorau yn aml i ddarparu dilyniant a sefydlogrwydd i'r plentyn. Ble mae ar blentyn angen derbyn gofal, bydd angen ffurfioli'r trefniant teuluol drwy gwblhau asesiad maethu a pharhau i'w cefnogi gan wasanaeth maethu yr awdurdod lleol.*

### c) Cyfanrif y plant a leolir gyda gofalwyr maeth awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol

Plant a leolir gyda gofalwyr maeth awdurdodau lleol


Plant a leolir gyda darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol




*Mae ystadegau gwladol ar gael i ddarparu gwybodaeth am niferoedd y plant rydym yn eu lleoli gyda gofalwyr maeth awdurdodau lleol a chyda gofalwyr maeth sydd wedi'u cymeradwyo gyda darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol (masnachol a thrydydd sector), a gefnogir hefyd gan wybodaeth cerdyn sgorio llinell sylfaen a ddarperir i awdurdodau lleol oddi wrth Gonsortiwm Comisiwn Plant Cymru (4Cs) ynghylch gweithgareddau lleoliadau. Fodd bynnag, nid yw hyn yn darparu manylion gweithgareddau awdurdodau lleol wrth gomisiynu lleoliadau oddi wrth y naill a'r llall nac yn gwahaniaethu rhwng darparwyr trydydd sector a masnachol.*

### ch) Defnydd awdurdodau lleol o ddarparwyr gwasanaethau maethu


Mae ystadegau fel ar yr 31ain o Fawrth, 2015.




*Ledled Cymru, mae yna amrywiaeth eang o arferion o ran comisiynu lleoliadau maeth gyda'r darparwyr annibynnol (masnachol a thrydydd sector). Ni chaiff gwybodaeth ei chasglu a'i rhannu'n rheolaidd ar hyn o bryd am yr hyn sy'n cymell yr angen i awdurdodau lleol gomisiynu oddi wrth ffynhonnell arall. Gellid defnyddio hyn i ddeall yr amrywiaeth mewn arferion, i rannu modelau da o arferion ac i ddatblygu dull mwy strategol o weithredu tuag at ddatblygu gwasanaethau maethu effeithiol sy'n diwallu anghenion plant sy'n derbyn gofal.*

### d) Plant â thri neu fwy o leoliadau

Mae ystadegau fel ar yr 31ain o Fawrth ond maent YN CYNNWYS gofal maeth gan berthnasau, gan nad yw'r wybodaeth wedi'i didoli.




*Gwyddom fod mesurau perfformiad wedi gwella dros y 10 mlynedd diwethaf ar gyfer nifer y plant sydd wedi cael tri neu fwy o symudiadau mewn lleoliad. Fodd bynnag, nid yw wedi gostwng yn is nag 8% o gyfanswm poblogaeth plant sy'n derbyn gofal. Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio hyn fel dangosydd o sefydlogrwydd lleoliad ar gyfer plant mewn gofal maeth, ond gall rhai symudiadau fod yn bositif, e.e., symudiad i leoliad parhaol neu fabwysiadu.*

# Yr hyn na wyddom am ein perfformiad

Er bod ystadegau gwladol a ffynonellau eraill o wybodaeth am berfformiad yn darparu rhywfaint o wybodaeth am berfformiad gwasanaethau maethu, mae llawer o'r wybodaeth sydd ei hangen yn cael ei chasglu ar lefel leol gan ddarparwyr gwasanaethau maethu unigol ac nid yw ar gael i'w defnyddio i hysbysu ac i wella datblygiad y gwasanaeth nac fel meincnod yn erbyn darparwyr eraill o wasanaethau maethu. Sut y gwyddom ein bod yn darparu gwasanaethau maethu effeithiol?



## RYDYM YN GWYBOD BOD

- Y mwyafrif o blant sy'n derbyn gofal wedi'u lleoli mewn gofal maeth.
- Niferoedd gofalwyr maeth sy'n berthnasau yn gyfrifol am thua 25% o gyfanrif y gofalwyr maeth a gymeradwyir ledled Cymru.
- Niferoedd Cymru gyfan o ofalwyr maeth awdurdodau lleol yn gostwng.
- Y Rhwydwaith Maethu wedi amcangyfrif yn 2015 bod arnom angen recriwtio 550 o deuluoedd maeth yn rhagor yng Nghymru.
- Ledled Cymru, mae gan awdurdodau lleol ychydig o dan ddwy ran o dair o blant gyda'u gofalwyr maeth eu hunain ac mae ychydig dros draean o blant wedi'u lleoli gydag asiantaethau maethu annibynnol (masnachol a thrydydd parti).
- Mae gennym 1,040 o blant wedi'u lleoli y tu allan i ffiniau'u hawdurdod lleol.
- Gwyddom nifer y plant sy'n profi tri neu ragor o symudiadau lleoliad.

## OND NI WYDDOM

- Faint o ymgyrchoedd recriwtio a gynhelir, pa bryd a chan bwy a beth yw'r canlyniadau?
- Faint o ymholiadau a gawsom oddi wrth bobl sydd eisiau dod yn ofalwyr maeth gyda'r holl ddarparwyr gwasanaethau maethu?
- Faint o ofalwyr maeth a gymeradwywyd 'llynedd?
- Sut y bydd y ddarpariaeth o drefniadau 'Pan Fyddaf yn Barod' yn effeithio ar nifer y gofalwyr maeth a gedwir gan wasanaethau maethu?
- Faint o leoliadau a chwalwyd a arweiniodd at blentyn yn gorfod symud?
- Faint o grwpiau brodyr a chwiorydd oedd angen eu lleoli gyda'i gilydd a leolwyd ar wahân?
- Faint o ofalwyr maeth oedd ar gael ac yn aros am leoliad?
- Faint a wariasom ar ffioedd a lwfansau maethu?
- Faint a wariasom ar recriwtio, hyfforddi, cefnogi a chadw gafael ar ofalwyr maeth?

Mae cynigion i ddatblygu Fframwaith Maethu Cenedlaethol fel a amlinellir ym mhapur Barn Gychwynnol wedi rhoi cyfle i lunio dull effeithiol ac y cytunwyd arno o weithredu tuag at reoli perfformiad ac adnoddau sy'n helpu i fesur i ba raddau y mae awdurdodau lleol ac asiantaethau gwasanaethau maethu eraill yn cyflawni arferion gorau.

Bydd datblygu Fframwaith Perfformiad ac Adnoddau Cenedlaethol ar gyfer pob darparwr gwasanaethau maethu'n cefnogi amcanion Fframwaith Maethu Cenedlaethol i wella cynllunio dyfodol parhaol i blant ac ansawdd y ddarpariaeth o leoliadau; bwriad strategol llawer mwy argyhoeddiadol a chymhellol yn gysylltiedig â gwasanaethau maethu; a darparu mwy o dryloywder ynglŷn â pherfformiad gwasanaethau maethu a'r defnydd effeithlon o adnoddau. Fel ffrwd waith o'r Grŵp Llywio Strategol – Gwella Canlyniadau i Blant, bydd y gwaith o ddatblygu Fframwaith Perfformiad ac Adnoddau Cenedlaethol yn cyd-fynd yn agos â gweithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol.

Bydd datblygu Fframwaith Perfformiad ac Adnoddau Cenedlaethol yn darparu cyfle am y tro cyntaf i wasanaethau maethu gael eu cynnwys fel system ddata briff ffrwd drwy gysoni'r datblygiad â'r gwaith a wneir i ddarparu Gwasanaeth Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS).

## EGWYDDORION DATBLYGU FFRAMWAITH PERFFORMIAD AC ADNODDAU CENEDLAETHOL AR GYFER GWASANAETHAU MAETHU

- Cefnogi'r holl ddarparwyr gwasanaethau maethu yng Nghymru i gyflawni'u rhwymedigaethau statudol i gasglu gwybodaeth am reoli perfformiad ynglŷn â darparu gwasanaethau maethu.
- Datblygu diwylliant o fewn yr holl wasanaethau maethu o welliant parhaus ar wasanaethau gan ddefnyddio gwybodaeth am reoli perfformiad.
- Hyrwyddo canlyniadau da i blant a phobl ifanc yn unol â gwaith Grŵp Llywio Strategol – Gwella Canlyniadau i Blant.
- Datblygu meincnod ar berfformiad ar gyfer yr holl wasanaethau maethu ledled Cymru parthed cyflenwi gwasanaethau maethu.
- Datblygu meincnod ar gyfer effeithiolrwydd cost gwasanaethau maethu.
- Hyrwyddo dull gweithredu ar y cyd gan wasanaethau maethu tuag at ymateb yn fwy effeithiol i bwysau o fewn y system ofal.
- Darparu tryloywder wrth gyflenwi gwasanaethau maethu ar gyfer darparwyr gwasanaethau a defnyddwyr gwasanaethau.

## BUDDION AR GYFER GWASANAETHAU MAETHU

- Cael dull cyson o weithredu ar gyfer casglu set o wybodaeth rheoli perfformiad ac adnoddau.
- Cael diffiniadau pendant o ba ddangosyddion perfformiad sydd i'w casglu.
- Cael amserlen bendant ar gyfer casglu gwybodaeth yn unol â gofynion casglu data eraill.
- Casglu gwybodaeth sy'n ystyrlon i anghenion gwasanaethau maethu.
- Cael mynediad at wybodaeth rheoli perfformiad ac adnoddau ar gyfer meincnodi a gwella gwasanaethau maethu.
- Darparu cyfle i ddarparwyr gwasanaethau maethu ddarparu gwybodaeth i roi cyd-destun i'r data a gesglid.
- Cael set o wybodaeth rheoli perfformiad ac adnoddau sy'n ategu'r gofynion o ran tystiolaeth ar gyfer arolygiadau AGGCC o wasanaethau maethu.
- Defnyddio gwybodaeth sydd ar gael i recriwtio a chadw gafael ar ofalwyr maeth.
- Gweithredu gwasanaethau maethu o fewn fframwaith ariannol.
- Codi safonau'n genedlaethol.

# Darparu adnoddau i Wasanaethau Maethu


## BETH YDYM YN EI WYBOD AR HYN O BRYD AM YR ADNODDAU?

Gwyddom fod y gwariant ar wasanaethau maethu wedi cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn o 2005 i 2013 ond gostyngodd yn 2014/15 ond ni wyddom a yw hyn yn gysylltiedig â gwariant ar leoliadau neu wariant ar ddarparu gwasanaeth maethu. Ni wyddom faint y mae darparwyr yn y sector masnachol a thrydydd sector yn ei wario ar ddarparu gwasanaeth maethu. Gwyddom fod yna amrywiaeth enfawr mewn gwariant gan awdurdodau lleol ond ni wyddom pam.

## GWARIANT NET

Cynhelir yr arolwg alldro refeniw gan Lywodraeth Cymru a chesglir data drwy ddychweliadau blynyddol gan awdurdodau lleol Cymru. Cynhelir yr arolwg bob haf gyda'r canlyniadau ar gael ym mis Hydref.


a) **Mae ystadegau Cymru gyfan dros y 10 mlynedd diwethaf yn dangos gwariant net gan awdurdodau lleol ar wasanaethau maethu, heb gynnwys lleoliadau gyda gofalwyr maeth sy'n berthnasau**




*Mae gwariant net yn cynnwys ffioedd a lwfansau ar gyfer costau gofalwyr maeth a staff ar gyfer gwasanaethau maethu ond mae'r holl gostau eraill yn cael eu hepgor.*



**b) Mae yna amrywiad gwariant ledled y 22 o awdurdodau lleol yn 2014/2015**




*Yr hyn y mae'r amrywiad yn y gwariant gan awdurdodau lleol ar leoliadau gyda'r darparwyr annibynnol (masnachol a thrydydd sector) yn ei adlewyrchu yw'r amrywiaeth eang mewn arferion sy'n gysylltiedig â chomisiynu lleoliadau. Fodd bynnag, nid oes yna gydberthynas uniongyrchol rhwng maint yr awdurdod lleol a chomisiynu lleoliadau gyda dau awdurdod lleol o'r un maint sydd ag amrywiad gwariant rhwng £1,008,000 a £5,802,000.*

**c) Gwariant gros Cymru gyfan ar gyfer gwasanaethau maethu heb gynnwys gofal maeth gan berthynas**

| | **2012/2013** | | **2013/2014** | | **2014/2015** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gofal maeth awdurdodau lleol | £49,382,143 | 2230 o blant | £46,566,444 | 2240 o blant | £51,320,559 | 2200 o blant |
| Darpariaeth gofal maeth gan y sector annibynnol | £58,967,864 | 1330 o blant | £58,470,061 | 1275 o blant | £52,271,037 | 1205 o blant |

*Mae awdurdodau lleol yn gyson dros y tair blynedd diwethaf wedi cael gwariant gros mwy ar ofal maeth a ddarparwyd gan y sector annibynnol (masnachol a thrydydd parti) na'r gwariant gros ar eu gwasanaethau eu hunain. Mae gwariant gros ar wasanaethau maethu awdurdodau lleol yn cynnwys talu ffioedd a lwfansau i ofalwyr maeth a chostau staff; mae gwariant gros ar leoliadau'r sector annibynnol (masnachol a thrydydd sector) yn cynnwys y tâl i ofalwyr maeth a ffi rheoli'r darparwr ar gyfer pob lleoliad.*

# Y Rhaglen Ymgynghori

## BETH OEDD HI?

Arweiniodd Grŵp Cyfeirio'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol ar raglen helaeth o ymgynghori o fis Tachwedd 2015 tan ddiwedd mis Chwefror 2016. Gwnaeth yr holl randdeiliaid allweddol gymryd rhan yn weithredol yn hyn a gwnaethant gyfraniadau positif. Oherwydd y graddfeydd amser tynn oedd yna, defnyddiwyd mecanweithiau ymgynghori oedd eisoes yn bodoli yn ogystal â rhai newydd a ddatblygwyd yn benodol ar gyfer y diben hwn.

- Arweiniodd y Rhwydwaith Maethu ar yr ymgynghori â gofalwyr maeth.
- Arweiniodd Voices from Care ar yr ymgynghori â Phlant a Phobl Ifanc.
- Darparodd AFA Cymru gefnogaeth werthfawr gyda threfnu'r digwyddiad Cymru gyfan i ymgynghori ag awdurdodau lleol a'u partneriaid yn y sector cyhoeddus.
- Arweiniodd grŵp o reolwyr awdurdodau lleol ar yr ymgynghori ag awdurdodau lleol.

Carwn ddiolch yn arbennig iawn i'r holl fudiadau ac unigolion hyn am y cyfraniad gwerthfawr y maent wedi'i wneud i Gam Un y gwaith ar y Fframwaith Maethu Cenedlaethol.

**Rydym wedi ymgynghori â:**

- Phlant a Phobl ifanc
- Gofalwyr maeth yn y sector annibynnol, y trydydd sector ac mewn awdurdodau lleol
- Gwasanaethau maethu annibynnol (masnachol a thrydydd parti)
- Staff awdurdodau lleol a'u partneriaid yn y gwasanaethau cyhoeddus
- Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru gyfan.

## DULLIAU YMGYNGHORI A DDEFNYDDIWYD:

- Mae pob rhanddeiliad allweddol wedi cael cyfleoedd i gyflwyno'r farn oddi wrth eu mudiadau.
- Mae ymatebion unigol hefyd wedi'u hannog.
- Datblygwyd cyflwyniad Powerpoint ar y Fframwaith Maethu Cenedlaethol i'w ddefnyddio gan unigolion yn eu mudiadau eu hunain i ysgogi trafodaeth.
- Arolygon ar-lein ar gyfer: pobl ifanc, gofalwyr maeth yn y sector annibynnol (masnachol a thrydydd parti), ac awdurdodau lleol, staff yn y sector annibynnol (masnachol a thrydydd parti) ac awdurdodau lleol.
- Cyfweliad strwythuredig ar y ffôn gyda gofalwyr maeth.
- Gweithdai gyda phlant a phobl ifanc.
- Mynychu fforymau/cyfarfodydd presennol.
- Digwyddiad Cymru gyfan ar gyfer awdurdodau lleol a'u partneriaid yn y sector cyhoeddus.
- Cyflwyniad mewn cyfarfod Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru gyfan ar y 4ydd o Fawrth, 2016.



# Ymgynghoriad: Plant a Phobl Ifanc

**Arweiniodd Voices from Care ar nifer o weithdai rhyngweithiol gyda phobl ifanc. Mynegodd pobl ifanc eu barn ar:**

- Beth sy'n gwneud lleoliad gofal maeth da?
- Beth a all chwalu lleoliad?
- Beth a all atal lleoliad maeth rhag cael ei chwalu?

## ADEILADU'R LLEOLIADAU

Trafododd y grwpiau'n gychwynnol pa briodoleddau a gweithredoedd yr hoffech eu gweld mewn gofalwyr maeth. Teimlai'r holl bobl ifanc ei bod hi'n hanfodol bod pobl ifanc yn teimlo'u bod yn cael eu cefnogi, eu caru, eu bod yn 'cyfri' ac y gwrandewir arnynt.



*"Lle lle y gallwch deimlo'n ddiogel"*

**Cael eu gwerthfawrogi:**

*"Cael ein trin fel petaem yn cyfri'"*
*"Cariad a charedigrwydd"*
*"Yn ein helpu pan ydym yn isel ein hysbryd"*
*"Addysgu sgiliau inni – rheoli i annibyniaeth"*
*"Bod yno imi"*
*"Roeddwn yn hoffi cael fy neall"*
*"Gofyn inni am ein tebygrwydd"*
*"Bod â thebygrwydd â'r teulu"*
*"Rhywun sy'n eich deall"*
*"Rhywun sy'n gwrando arnoch"*
*"Rhywun sy'n dod i'ch adnabod"*
*"Yn ein cefnogi i wneud gweithgareddau/clybiau rydym yn eu mwynhau"*
*"Gwnaethant helpu gyda'r ysgol"*
*"Cyfle i iachâu hen friwiau"*
*"Lle y gallwch deimlo'n ddiogel"*
*"Llonyddol"*
*"Pobl y gallwch siarad â nhw"*
*"Emosiynol gefnogol"*

Roedd cydnabyddiaeth o gyflawniadau'n bwysig ac yn sylfaen i leoliad sefydlog, cariadus a dedwydd.

*"Dathlu'ch llwyddiannau"*
*"Bod yn falch ohonoch"*
*"Ein canmol am y pethau a wnaethom, nid yw'n treulio amser i ddangos ein beiau inni"*
*"Mae'n dathlu llwyddiannau ac mae'n falch ohonoch"*

**Pwysigrwydd rhwymau emosiynol a pherthnasau:**

*"Yn ein trin y ffordd y dymunwch gael eich trin"*
*"Yn ein trin yn gyfartal"*
*"Maen' nhw'n fy nhrin i fel eu plant eu hunain"*
*"Yn parchu'n preifatrwydd"*
*"Yn eich trin fel petaech yn un ohonynt"*
*"Bod yn gyson gyda ni"*
*"Bod yn gallu ymgysylltu â chi"*
*"Nid yn dewis eu plant eu hunain o'n blaen ni"*
*"Cydraddoldeb a bod yn deg"*
*"Gwyliau fel teuluoedd arferol"*

**Cysondeb**

*"Pan gyrhaeddais gyntaf, gwnaethant [gofalwyr maeth] wario llawer o arian arnaf a gwnaethom lawer o weithgareddau. Roedd hyn yn wirioneddol hyfryd, ond ar ôl ysbaid, fe stopiodd hyn. Nid wyf yn dweud y dylent wario llawer o arian arnaf drwy'r amser, dim ond bod yn gyson."*

*"Rhywun sy'n eich deall"*

*"Mae'n dathlu llwyddiannau ac mae'n falch ohonoch"*

*"Yn ein trin yn gyfartal"*



### Paratoad rhagweithiol ar gyfer symudiadau lleoliad

*"Gallai gofalwyr maeth fod wedi cael llun beiro ohonof"*
*"Cyfarfod â phobl [gofalwyr maeth] yn gyntaf"*
*"Gofynnwyd imi a oedd arnaf eisiau cyfarfod â'm gofalwyr maeth. Aethom am ddiwrnod allan, a oedd yn wych."*
*"Cyfarfod â'r plant maeth cyn ichi symud"*
*"Daeth fy ngofalwr maeth i'm gweld cyn imi symud; gwnaeth hyn y symudiad yn llawer haws imi."*
*"Roedd gan fy ngofalwyr maeth potensial bicnic yn barod imi, gyda fy hoff fwydydd i gyd. Roedd o'n rhagorol; roeddynt wedi ffonio fy ngweithiwr cymdeithasol i gael gwybod."*

### Pwysigrwydd Gwybodaeth

Gwelwyd fod cael gwybodaeth am y gofalwyr maeth, y tŷ a'r ardal y mae'r bobl ifanc yn mynd i fyw ynddi cyn eu bod yn symud yn ffordd wych o leihau'r gorbryder, yr ansicrwydd a'r straen o symud lleoliadau. Cafodd cael yr wybodaeth hon mewn fformat sy'n berthnasol i bobl ifanc ei drafod: teimlai'r grwpiau ei bod hi'n bwysig sicrhau bod gwybodaeth yn hygyrch ar gyfrifiaduron neu ar ffonau clyfar a'i bod yn cael ei chyflwyno drwy fideos, dogfennau wedi'u teipio'n syml neu rith-deithiau.

*"Gallai pobl ifanc gael rhith-daith o gwmpas y tŷ a'u hystafell wely cyn iddynt symud i mewn, fel eu bod yn gwybod sut mae'n edrych."*
*"Gwybodaeth am y lleoliadau ar-lein"*
*"Gwybodaeth cyn inni symud i mewn – enwau, oedrannau, manylion y teulu, rheolau tŷ, disgwyliadau ohonom a'r ffordd rydych yn byw."*
*"Ble rwy'n mynd i fyw?"*
*"Os oes gennych unrhyw anifeiliaid anwes neu blant, beth yw eu henwau a faint yw eu hoed."*
*"Gwybodaeth ymarferol, fel arosfeydd bysiau, cynlluniau prydau bwyd, gwybodaeth deuluol, amser gwely, hwyrglychau, siopau lleol."*

*"Roedd gan fy ngofalwyr maeth potensial bicnic yn barod imi, gyda fy hoff fwydydd i gyd. Roedd o'n rhagorol; roeddynt wedi ffonio fy ngweithiwr cymdeithasol i gael gwybod."*

*"Eglurwch ddisgwyliadau, o'r dechrau"*

### Rydym yn hapus pan:

*"Eu bod yn mynd â ni allan"*
*"Fo pawb yn garedig"*
*"Cawn brofiadau newydd"*
*"Rhoi amser inni ddod i arfer â'r bobl"*
*"(Pan fo gennym) drefn arferol"*
*"(Maent) yn rhoi mwy o gyfleoedd imi"*
*"(Maent) yn ddelfrydau ymddwyn positif"*
*"Mae'n lle hyfryd i fyw"*
*"Pan fo arnoch angen siarad â rhywun, maen' nhw yno."*
*"O'r dechrau, eglurwch ddisgwyliadau, treuliwch amser gyda gofalwyr, helpwch i lanhau'r tŷ, wyddoch chi, treuliwch amser gyda nhw… Amser bondio."*
*"Mwy o weithgareddau cyfranogi – cyfarfod â phobl ifanc eraill sy'n derbyn gofal."*
*"(Maent) yn fy addysgu i wneud pethau'n iawn."*
*"Mae pobl yn garedig"*
*"Mae'n eich helpu i ffynnu"*
*"Mae'n gwrando ar fy mhryderon"*

## DIFODI

Gofynnwyd i bobl ifanc beth maent yn ei deimlo a all niweidio perthnasau positif, sut y gall lleoliadau chwalu a beth sy'n gwneud i bobl ifanc deimlo'n anghyfforddus neu'n anniogel. Mae llawer o'r syniadau oedd gan bobl ifanc yn safbwyntiau cyferbyniol i'r rheiny a roddwyd wrth drafod adeiladu lleoliad positif.

*"Ddim digon o ganmoliaeth yn cael ei rhoi i bobl ifanc"*
*"Ddim yn gwybod am y gofalwyr"*
*"Ddim yn achub eich cam"*
*"Mae'r gofalwr yn ochri â'r plentyn ac yn eich trin chi'n wahanol"*
*"Ddim yn cael (yn teimlo eich bod yn cael) eich caru"*
*"Ofni pobl"*
*"Teimlo'n anniogel"*
*"Ffafriaeth i un plentyn maeth ar eich traul chi – dylech drin pawb yn gyfartal."*
*"Pan nad ydynt yn ymgysylltu â chi"*
*"Ddim yn gofalu amdanoch"*
*"Yn teimlo eich bod yn cael eich anwybyddu"*
*"Ddim yn siarad â ni"*
*"Ddim yn cael ein trin yr un fath, mae hyn yn ein gwneud i deimlo'n ddigalon ac wedi'n cau allan."*

### Cyfathrebu


Teimlai pobl ifanc y gall cyfathrebu â phobl ifanc neu ag eraill esblygu materion bychain i fod yn deimladau o ansicrwydd a diymadferthedd, a all dros amser arwain at chwalfeydd mewn perthnasau a lleoliadau.


*"Cael pobl sy'n ddieithr i mi yn y tŷ. Mae arnom angen gwybod pwy sy'n dod i'r tŷ a sut maent yn cyd-fynd â theulu a chyfeillion"*
*"Bod yn ffug – byddwch yn naturiol a pheidiwch â bod yn rhywun nad ydych o flaen gweithwyr cymdeithasol"*
*"Ddim yn eich cyflwyno i'w teuluoedd"*
*"Ddim yn gallu siarad â rhywun"*
*"Ddim yn mynd â chi at eich apwyntiad"*
*"Peri dadleuon am ddim rheswm"*
*"Ddim yn gwrando ar broblemau'r plentyn, e.e., bwlio"*
*"Ddim yn deall fy anghenion a'm gwerthoedd"*
*"Cael gwybodaeth anghywir gan rywun"*
*"Dim cyfathrebu"*
*"Cael fy lleoli mewn ardal nad ydych yn gwybod dim amdani ac mae'n rhaid ichi ailddechrau'ch bywyd drachefn."*

### Penderfyniadau


Trafododd pobl ifanc faterion neu benderfyniadau nad oes gan y gofalwyr maeth ddim cysylltiad â nhw ond a all ddal i beri i berthnasau a lleoliad chwalu. Isod, mae rhai o'r sylwadau a'r safbwyntiau allweddol.

*"Yn cael eich symud i leoliad rhatach"*
*"Yn cael eich labelu fel plentyn trafferthus"*
*"Prinder cartrefi maeth"*
*"Neb yn yr ysgol y gallwn siarad â nhw"*
*"Llefais pan symudais"*
*"Pa bryd rydych yn disgwyl symud"*





### Barn Pobl sy'n Gadael Gofal

*"Os nad ydych yn teimlo'n ddiogel, nad oes neb yn gwrando arnoch neu nad yw'ch lleoliad yn sefydlog, beth ydych yn ei wneud?"*

Mae'n bwysig bod y person ifanc yn gwybod am eiriolaeth neu'n gwybod eu bod yn gallu siarad â rhywun megis gweithiwr cymdeithasol, swyddog adolygu annibynnol neu athro.

*"Mae yna stigma cymdeithasol ynghlwm wrth dderbyn gofal; gall hyn wirioneddol niweidio hunan-barch pobl ifanc". – Mae arnom angen hyrwyddo delfrydau ymddwyn positif o bobl sy'n gadael gofal, arferion gorau wrth ymdrin â stigma, fydd dros amser yn addysgu'r cyhoedd yn fwy cyffredinol. Nid ein bai ni ydyw ein bod mewn gofal.*

*"Ddim yn gallu gweld grwpiau cyfeillgarwch oherwydd lleoliadau". – Mae ar ofalwyr maeth angen annog cymdeithasoli a chyfranogi o wahanol weithgareddau a grwpiau. Nid oes yn rhaid i hyn fod gydag ond plant sy'n derbyn gofal ond weithiau mae hyn yn helpu. Mae problem a rannir yn broblem wedi'i datrys.*

*"Pan ddaw arian o flaen hapusrwydd"* – Mae angen cael gwell paratoad fel nad yw pobl ifanc yn cael eu symud yn eu blaen yn ddiangen.

*"Ddim yn cael amser i addasu i amgylchoedd newydd"* – Mae angen cefnogaeth ar gyfer y teulu cyfan i helpu pawb i addasu i leoliad newydd. Byddai cyfarfod â'r gofalwyr cyn ichi symud yn cyflymu'r broses fondio.

## Y MUR: SUT I ATAL DIFODI

Rhoes pobl ifanc rai syniadau ynglŷn â'r gefnogaeth sydd ei hangen i gadw lleoliadau'n ddedwydd ac i leihau hyd yr eithaf ar y risg o leoliad a pherthynas yn chwalu.

*"Egluro pam mae penderfyniadau'n cael eu gwneud."*

*"Os oes yn rhaid inni newid lleoliad, ble y bo'n bosibl caniatewch inni fod yn yr un ysgol."*

*"Os oes yna ddadleuon neu anghydfod rhwng y person ifanc a'r gofalwyr maeth, cynigiwch ryw fath o gefnogaeth anffurfiol i'w ddatrys. Felly, mae pawb yn eistedd ac mae'n cael y cyfle i ddweud eu hochr nhw o'r stori mewn amgylchedd diogel."*

*"Ei wneud o weithio"* – Dylai fod yna restr o briodoleddau a gweithredoedd y mae'r gofalwr maeth a'r person ifanc yn cytuno arnynt… fel parchu ei gilydd, helpu o amgylch y tŷ, gallu gweld cyfeillion. Felly, mae yna gyfres o ddisgwyliadau y cytunir arnynt y mae'n rhaid i bobl gadw atynt.

Dylid cynnwys pobl ifanc wrth benderfynu pwy a ddaw yn ofalwr maeth. Dylwn fod yn gysylltiedig â rhyw ran o'r broses hyd yn oed os nad ydym yn gallu gwneud y penderfyniad terfynol.

# Ymgynghoriad: Gofalwyr Maeth

## SUT Y GWNAETHOM YMGYNGHORI?

Arweiniodd y Rhwydwaith Maethu ar y rhaglen ymgynghori â gofalwyr maeth yn y sector annibynnol (masnachol a thrydydd parti) a gofalwyr awdurdodau lleol.

Cynhaliwyd grŵp ffocws gyda phedwar o ofalwyr maeth sy'n aelodau o Grŵp Cynghori Gofalwyr Maeth y Rhwydwaith Maethu a hysbyswyr allweddol. Cydategwyd hyn gan wyth cyfweliad manwl, lled-strwythuredig ar y ffôn gyda gofalwyr maeth o'r rhan fwyaf o Gymru, a chwblhawyd arolwg ar-lein gan 64 gofalwr maeth yn rhagor.

Roedd y niferoedd a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad yn eitha' bychan a fwy na thebyg yn cynnwys y gofalwyr maeth mwyaf gweithredol, ac felly ni ddylem ragdybio eu bod yn cynrychioli barn gofalwyr maeth yn gyffredinol. Fodd bynnag, seilir yr adroddiad ar brofiad uniongyrchol y gofalwyr maeth gwybodus hyn, a rydd hyder parthed canfyddiadau yn ymwneud â ffactorau ansawdd yn gysylltiedig â gwasanaethau maethu.

## NEGESEUON ALLWEDDOL

Credai gofalwyr maeth y dylai fod ganddynt rôl bwysig i helpu i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu yn unol â safonau y cytunwyd arnynt. Mewn termau cyffredinol iawn, felly, mae'n bosibl dweud bod cyfranogwyr yn bryderus ynglŷn â gwella arferion ledled Cymru yn gysylltiedig â:

1. y ddarpariaeth hyfforddi;
2. datblygu grwpiau cefnogi gofalwyr maeth;
3. rhannu arferion da parthed taliadau a chyllid, gan gynnwys mwy o dryloywder ynglŷn â'r cymorth ariannol sydd ar gael;
4. sicrhau bod yr un gweithiwr cymdeithasol yn gallu darparu cefnogaeth i deulu dros gyfnod rhesymol o amser;
5. gwella agweddau eraill o gefnogaeth, yn cynnwys arferion goruchwylio, cefnogaeth y tu allan i oriau gwaith, cefnogaeth i'r teulu cyfan a darpariaeth seibiant;
6. mynd i'r afael â materion cyffredinol yn ymwneud â chyfathrebu;
7. sicrhau bod gofalwyr maeth yn cael eu cynnwys yn fwy cyfartal wrth lunio penderfyniadau, gan gcynnwys sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cyflawni yn unol â'r safonau y cytunwyd arnynt.

Mae'n anos bod yn eglur ynglŷn â chanfyddiadau yn ymwneud â dyrannu swyddogaethau rhwng lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

Mewn termau cyffredinol eto, y prif gasgliad y gellir ei wneud yw y byddai ar gyfranogwyr eisiau i'r swyddogaethau cenedlaethol ganolbwyntio ar bolisi, strategaeth a materion atebolrwydd er mwyn sefydlu, monitro a sicrhau safonau gwasanaeth uchel. Dylid cynnwys gofalwyr maeth yn y prosesau hyn. Teimlent y dylai swyddogaethau cyflawni fod yn gyfrifoldeb i strwythurau rhanbarthol neu leol.

Ystyriodd y grŵp ffocws o ofalwyr maeth y gallai cyfrifoldebau gael eu cyflawni ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol, fel a ddisgrifir yn y tabl ar y dde.

Yn olaf, yr hyn oedd yn amlwg o'r ymgynghoriad oedd yr ymroddiad a'r cyfrifoldeb y teimlai gofalwyr maeth tuag at y plant a'r bobl ifanc roeddynt yn eu maethu. Er eu bod yn cydnabod y cyfyngiadau strwythurol o fewn yr hyn roeddynt yn maethu, yr hyn oedd yn eglur oedd eu hewyllys i sicrhau bod pob plentyn neu berson ifanc sy'n derbyn gofal yn cyrraedd eu potensial.

**Dyrannu swyddogaethau rhwng lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol gan gyfranogwyr grwpiau ffocws:**

**LEFEL GENEDLAETHOL**
- Datblygu polisïau cyffredin
- Y Mecanwaith Adolygu Annibynnol (IRM)
- Ymagweddiadau tuag at "Pan Fyddaf yn Barod"
- System grantiau
- Ariannu – cenedlaethol a thryloyw
- Datblygu rhaglen hyfforddi graidd
- Safonau, polisïau a gweithdrefnau ar gyfer gofalwyr maeth
- Canllawiau ar gyfer marchnata – ystyriaethau gwahanol i Asiantaethau Maethu Annibynnol ac Awdurdodau Lleol

**LEFEL RANBARTHOL**
- Cyfnewid lleoliadau rhwng Asiantaethau Maethu Annibynnol ac Awdurdodau Lleol
- Cyfrifoldebau llunio penderfyniadau gan asiantaeth neu awdurdod
- Adolygiadau blynyddol o ofal maeth
- Lleoli a pharu plant a phobl ifanc (dyfarniad hollt: pleidleisiodd tri dros lefel ranbarthol, un dros lefel leol)
- Cynnal asesiadau maethu llawn
- Gweithgareddau marchnata a recriwtio i recriwtio gofalwyr
- Cydweithredu rhwng gwasanaethau
- Cefnogaeth
- Gwasanaeth y tu allan i oriau gwaith – gweithwyr cymdeithasol ar alwad – nid 9 tan 5

**LEFEL LEOL**
- Cynnal asesiad o ofal maeth gan berthynas
- Ymateb i ymholiadau cychwynnol i faethu (dyfarniad hollt: pleidleisiodd un dros lefel leol, un dros lefel ranbarthol a dau dros lefel leol).

# Ymgynghoriad: Staff Annibynnol (Masnachol a Thrydydd Sector)

## SUT Y GWNAETHOM YMGYNGHORI?

Arweiniodd y Rhwydwaith Maethu ar arolwg ar-lein ar gyfer staff gyda'r darparwyr annibynnol (masnachol a thrydydd sector) ac mewn awdurdodau lleol.

Anogwyd staff yn yr asiantaethau maethu masnachol a thrydydd sector i fynegi'u barn, a gwnaeth llawer hynny drwy ddarparwyr y Nationwide Association for Fostering.

Mynychodd y Rheolwr Prosiectau dros y Fframwaith Maethu Cenedlaethol Fforwm Darparwyr Annibynnol (Masnachol a Thrydydd Sector) a gynhaliwyd gan Y Rhwydwaith Maethu ym mis Rhagfyr, 2015.

Derbyniwyd ymateb ysgrifenedig cyfunol oddi wrth ddarparwyr annibynnol (masnachol a thrydydd sector) ar ôl cyfarfod y gwnaethant ei gynnal i drafod y Fframwaith Maethu Cenedlaethol, gan roi manylion y materion allweddol ar gyfer darparwyr gwasanaethau maethu masnachol a thrydydd sector.

Cynrychiolwyd asiantaethau trydydd sector – dielw – ar y Grŵp Cyfeirio a derbyniwyd ymateb unigol hefyd oddi wrth ddau fudiad.

Gwnaeth yr ymateb cyfunol oddi wrth y darparwyr annibynnol (masnachol a thrydydd sector) nodi rhai tensiynau cyfredol yn ymwneud â'r fframwaith comisiynu. Gwnaethant hefyd nodi rhai materion y dylid eu hystyried wrth ddatblygu Fframwaith Maethu Cenedlaethol a rhai meysydd o arferion da. Dyma oedd eu hymateb:

- Lleisiodd aelodau bryderon am y gweithdrefnau dilyniannol o ganfod lleoliadau a sut mae gan hyn y potensial i ddileu'r lleoliad mwyaf priodol ar gyfer plentyn wrth chwilio am leoliad.
- Hoffai aelodau weld cyfleoedd i awdurdodau lleol a darparwyr gydweithio i alluogi gwell cynllunio ymlaen llaw. I rannu'r un wybodaeth am anghenion nas diwallwyd a safle'r farchnad. Dywed darparwyr ei bod hi'n anodd heb hyn iddynt lunio cynlluniau datblygu manwl-gywir i ddiwallu anghenion yn y dyfodol.
- Mae ein haelodau'n bryderus am lefel y tarfu ar leoliadau ac mae arnynt eisiau gweld mwy o ffocws ar sefydlogrwydd. Rhoddwyd enghreifftiau o leoliadau oedd wedi'u paru'n dda yn y sector annibynnol y tarfwyd arnynt gan fod yr awdurdod lleol wedi symud y plentyn at ofalwr mewnol. Mae arnynt eisiau gweld mwy o bwyslais ar ddatblygu cysylltiadau positif ac ymddiriedus ac am gael cydnabyddiaeth mai gofalwr maeth â darparwr masnachol neu drydydd sector efallai sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu lleoliad hirdymor i blentyn.
- Y Mecanwaith Adolygu Annibynnol – Nid yw darparwyr yn teimlo bod hyn yn cynnig gwerth am arian ac y gellid gwneud pethau'n fwy effeithiol pe defnyddid prosesau eraill.
- Roedd yna awgrym bod awdurdodau lleol a darparwyr annibynnol (masnachol a thrydydd sector) yn cynnal digwyddiadau recriwtio ar y cyd. Maent wedi nodi petai gan un asiantaeth (awdurdod lleol neu annibynnol) ymgyrch recriwtio, yna mae'r holl asiantaethau'n gweld cynnydd mewn ymholiadau. Hoffent weld ystyriaeth o ddigwyddiadau recriwtio gofalwyr maeth, fyddai'n galluogi gofalwyr potensial i siarad â nifer o asiantaethau.
- Dymuniad i gael gwell dealltwriaeth o'r hyn y mae 'lleol' yn ei olygu. Mae ar aelodau eisiau datblygu cysylltiadau positif â'u cydweithwyr yn yr awdurdodau lleol sy'n comisiynu a chyda'u cydweithwyr ym maes gwaith cymdeithasol. Roedd darparwyr yn holi sut y gall awdurdodau lleol ffafrio lleoliadau eraill gan awdurdodau lleol mewn ardaloedd awdurdodau lleol eraill, yn hytrach lleoli plentyn yn lleol gyda gofalwr maeth annibynnol (masnachol a thrydydd sector). Hoffai darparwyr annibynnol (masnachol a thrydydd sector) gael trafodaethau parthed hyn a bod yna gonsensws ar y cyd os yw 'lleol' yn faen prawf pwysig ar gyfer plentyn, yna bydd yr holl opsiynau lleol yn cael eu hystyried, ni waeth pwy yw'r darparwr, cyn bod lleoliad ymhellach i ffwrdd yn cael ei ystyried.
- Mae yna bryder gwirioneddol am ansawdd gwybodaeth atgyfeirio a osodir ar yr Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant. Dywedodd aelodau fod hyn yn aml yn anghywir ac ar ôl yr oes a'i bod yn ei gwneud hi'n anodd iawn ystyried p'un ai a oes ganddynt ofalwr priodol i'w gynnig fel rhywun posibl i baru. Rhoes darparwyr rai enghreifftiau o sut roedd lleoliadau wedi methu oherwydd anghydnawsedd (oherwydd bod gwybodaeth atgyfeirio'n anghywir). Teimla darparwyr fod yna ddiffyg monitro o safon ar y wybodaeth atgyfeirio ac nad oes fawr iawn o gefnogaeth iddynt pan fo materion cytundebol yn codi o ganlyniad i'r wybodaeth wael a dderbyniwyd yn gychwynnol.

**Darparwyr maethu annibynnol a nododd eu bod yn gweithio'n dda:**

- Dywedodd rhai y gall fod yna oediadau cyn derbyn contractau lleoliadau unigol oddi wrth awdurdodau lleol a bod Consortiwm Comisiwn Plant Cymru wedi bod o gymorth mawr wrth swnian ar yr awdurdodau lleol am y rhain, gan sicrhau eu bod yn cael eu hanfon at ddarparwyr. Caiff yr ymyrraeth hon ei gwerthfawrogi'n fawr gan ddarparwyr.
- Dywedodd aelodau eu bod wedi profi rhywfaint o elyniaeth yn anffodus oddi wrth Gonsortiwm Comisiwn Plant Cymru ac oddi wrth nifer o gydweithwyr yn yr awdurdodau lleol a rydd yr argraff bendant eu bod yn gwrthwynebu gweithio â'r sector annibynnol. Fodd bynnag, mae rhai cydweithwyr yn yr awdurdodau lleol yn fwy cyfoes eu meddylfryd, yn gyfeillgar, yn barod eu cymorth ac yn fwy awyddus i weithio mewn partneriaeth ddiffuant, a bod hyn yn aml yn arwain at wasanaeth mwy effeithlon ac sy'n canolbwyntio ar y plentyn. (Credaf fod y profiadau negyddol y maent wedi'u cael yn anffodus weithiau'n taflu cysgod dros rywfaint o'r gwaith da a wna rhai cydweithwyr mewn awdurdodau lleol.)
- Mae yna rai cysylltiadau da â mudiadau maethu eraill, gwasanaethau preswyl a rhai gwasanaethau cymorth.
- Roedd yna hefyd farn fod yna rai gweithwyr cymdeithasol profiadol a chadarn a chanddynt sgiliau trefnu a chyfathrebu graenus a allai gydgysylltu tîm i helpu'r plentyn yn effeithiol. Roedd yr unigolion hyn yn eiriol dros y plentyn (hyd yn oed os golygai hyn herio'r rheolwyr) a dangosasant barch at y darparwr annibynnol (masnachol a thrydydd sector), gan eu trin yn gyfartal. Teimlai darparwyr fod hyn yn aml yn allweddol i sicrhau llwyddiant lleoliad. (Eto, er y cydnabuwyd hyn, dywedodd ein haelodau fod arferion yn amrywio'n aruthrol ac nad yw'r bartneriaeth waith hon yn anffodus ar waith bob amser.)

## NEGESEUON ALLWEDDOL ODDI WRTH ASIANTAETHAU MAETHU'R TRYDYDD SECTOR

*Ymatebodd un darparwr trydydd sector fel a ganlyn:*

1. Croesawn y cyfle i sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru yn profi cysondeb gofal ledled yr holl ddarparwyr gwasanaethau maethu. Yn neilltuol, byddem yn croesawu unrhyw waith a wneir i ddod â gwasanaethau maethu awdurdodau lleol yn unol â disgwyliadau contract Fframwaith Maethu Cymru gyfan a lleihau'r anfantais "gynhenid" yn y system gyfredol ar gyfer rhai plant. Er enghraifft – darparu cyfrif cynilo ar gyfer pob plentyn mewn gofal maeth ac adrodd ar ganlyniadau a fesurwyd/sgoriwyd ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal – mae'r rhain yn ofynion cytundebol ar gyfer Asiantaethau Maethu Annibynnol ond nid Awdurdodau Lleol.
2. Parhawn i weld gostyngiad yn y ddarpariaeth o gefnogaeth therapiwtig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru, tra bod gan lawer o blant mewn gofal maeth anawsterau emosiynol ac ymddygiadol cymhleth. Mae gwasanaethau Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed mor brysur ac mae gwasanaethau therapiwtig preifat drud yn cael eu defnyddio'n gynyddol i lenwi'r bylchau. Cwyd hyn bryderon am ddiffyg ansawdd ac ymagweddiad cyson ledled y sector ar gyfer yr holl blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru. Mae gwasanaethau therapiwtig i blant o fewn 'Pan Fyddaf yn Barod' hefyd o dan bwysau ac mae llai o gyllid ar gael yn y cyfryw leoliadau i gomisiynu therapi sector preifat.
3. Mae yna gynnydd wedi bod yn nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru sy'n profi tri neu fwy o symudiadau mewn blwyddyn (10% yn 2015). Dylai hyn fod yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer gwelliant, gyda gwasanaethau'n sicrhau y gallant ddarparu sefydlogrwydd i blant iau a phlant hŷn. Dylai cynllunio gofal ystyried lleoliadau a ariannir yn briodol yn gynharach yn y cynllunio yn hytrach nag ymateb i symudiadau lleoliadau lluosog yn ddiweddarach ym mywyd y plentyn.

Mynegodd asiantaethau maethu'r trydydd sector ddymuniad cryf i ddatblygu cysylltiadau cydweithredol cryfach ag awdurdodau lleol a oedd yn wahanol i'r rheiny sydd gan awdurdodau lleol gyda'r sector annibynnol. Eu barn yw mai un o ganlyniadau'r fframwaith comisiynu yw mai ond ychydig o gyfleoedd sydd yna wedi bod i hyn ddatblygu. Maent yn gweld datblygiad y Fframwaith Maethu Cenedlaethol fel cyfle i greu'r cysylltiadau newydd hyn, gan weithio'n nes â phartneriaid yn yr awdurdodau lleol i gefnogi ac i wella'r ddarpariaeth faethu yng Nghymru. Yn ychwanegol, mae asiantaethau maethu'r trydydd sector yn cyd-fynd â datblygiad y Fframwaith Maethu Cenedlaethol fel ffordd o gynhyrchu data o ansawdd i hysbysu llunio penderfyniadau, gan arwain at well canlyniadau i blant.

Mae'n ddiddorol nodi bod y berthynas statudol rhwng awdurdodau lleol a darparwyr maethu annibynnol (masnachol a thrydydd sector) yn wahanol yn yr Alban i'r hyn sydd yng Nghymru a Lloegr. Yn yr Alban, dim ond mudiadau maethu dielw a ganiateir drwy statud. Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol hyrwyddo'r cysylltiadau â mudiadau trydydd sector a dielw.

# Ymgynghoriad: Awdurdodau Lleol a Phartneriaid Gwasanaethau Cyhoeddus

## SUT Y GWNAETHOM YMGYNGHORI?

Arweiniodd y Rhwydwaith Maethu ar arolwg ar-lein ar gyfer staff mewn awdurdodau lleol.

Datblygwyd cyflwyniad PowerPoint ar y Fframwaith Maethu Cenedlaethol ac fe'i defnyddiwyd mewn nifer o wahanol leoliadau i ennyn trafodaeth a dadl.

Cynhaliwyd digwyddiad Cymru gyfan ar gyfer staff awdurdodau lleol a'u partneriaid yn y gwasanaethau cyhoeddus ar y 12fed o Chwefror ac roedd oddeutu 80 o staff yn bresennol.



## NEGESEUON ALLWEDDOL SY'N CODI O'R YMGYNGHORIAD

1. Parodrwydd gweithredol i ystyried sut y gallem gyflenwi gwasanaethau maethu'n wahanol er mwyn gwella perfformiad.
2. Cydnabyddiaeth nad yw'r perfformiad o ran Cymru gyfan yn dangos gwelliant parhaus.
3. Cafwyd gwelliannau sylweddol mewn perfformiad mewn rhai ardaloedd a chyda rhai agweddau ar y gwasanaeth. Fodd bynnag, caiff gwelliannau eu llesteirio yn aml gan newidiadau personél a/neu ostyngiad mewn cyllid.
4. Roedd Gofal Maeth gan Berthnasau yn broblem sylweddol i rai awdurdodau ac roedd yn effeithio ar eu gallu i recriwtio gofalwyr prif ffrwd, gan fod asesiadau Gofal Maeth gan Berthnasau yn aml dan gyfarwyddyd llys gyda chyfraddau amser tynn. Mewn awdurdodau eraill, roedd eu defnydd o leoliadau Gofal Maeth gan Berthnasau yn llai o lawer. Fe gynhyrchwyd papur 'A Kinship Foster Care: First Thoughts and Initial Scoping' gan Alison Crane o Rondda Cynon Taf, Jo Goodwin o Gastell Nedd Port Talbot, Sarah Bartlett o Ogledd Cymru a Kathy S'Jacob o AFA Cymru.

   I weld y papur 'Gofal Maeth gan Berthnasau', cliciwch y ddolen https://www.dropbox.com/s/r2exeo8jz2s6ot0/NFF%20-%20Kinship%20Care%20Paper%20-%20Cymraeg.pdf?dl=0

Yn y digwyddiad i Gymru gyfan ar y 12fed o Chwefror ar gyfer staff awdurdodau lleol a'u partneriaid yn y gwasanaethau cyhoeddus, fe ystyriodd cyfranogwyr yr hyn y gellid ei gyflenwi'n well yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol.

Cafwyd cryn gytundeb ar rai agweddau ar gyflenwad gwasanaethau ond nid y cwbl, gan y bydd llawer yn dibynnu ar y manylion. Fodd bynnag, fe gydnabuwyd y dylid ystyried y canlynol, o leiaf, ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol.

| Cenedlaethol | Rhanbarthol | Lleol |
|---|---|---|
| Strategaeth Farchnata<br>• Hunaniaeth brand<br>• Logo/arwyddair<br>• Ymgyrchoedd cenedlaethol<br>• Gwefan | Strategaethau marchnata sy'n cysylltu â'r ymgyrch genedlaethol | Gwybodaeth leol yn bwydo i mewn i weithgaredd rhanbarthol a chenedlaethol yn ogystal â dal gafael ar weithgaredd marchnata lleol – 'gwybod beth sy'n gweithio yn eich ardal leol' |
| Fframwaith Polisi Cyffredin, er enghraifft<br>• Cymhwysedd i ddod yn ofalwr maeth<br>• Panelau Maethu<br>• Recriwtio<br>• Adroddiadau Rheol 42<br>• Ysmygu/anifeiliaid anwes | | |
| Fframwaith hyfforddi i osod safonau ar gyfer hyfforddiant ar ôl cymeradwyaeth | Gellid cyflenwi hyfforddiant ar ôl cymeradwyaeth yn rhanbarthol | Pre-approval training if there were no delays for applicants |
| Gofal Maeth gan Berthnasau -fframwaith cenedlaethol i sicrhau dull cyson o weithredu ledled Cymru | | Rheoliad 38/asesiadau/cymeradwyaethau gofal maeth gan berthnasau – mae'n bwysig cynnal cysylltiadau â thimau gwasanaethau plant |
| | Gwasanaethau cymorth ar ôl lleoliad gydag iechyd, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) ac addysg | |
| Dylai polisi recriwtio cenedlaethol osod safonau/graddfeydd amser ar gyfer ceisiadau i faethu | Ymateb i ymholiadau cychwynnol i faethu, i sicrhau fod yna wasanaeth 'ethos cwsmeriaid' cadarn o'r man ymholi cyntaf | Gellid cynnal ymholiadau cychwynnol yn lleol os gall awdurdodau roi tystiolaeth o gyrraedd safonau/graddfeydd amser. |
| | Asesiadau maethu llawn i osgoi unrhyw oedi | Gallai'r awdurdod lleol wneud asesiadau maethu llawn os gallai ddangos ei fod yn cyrraedd safonau/graddfeydd amser cenedlaethol |
| | Gallai Panelau Maethu osgoi oediadau i ymgeiswyr | Gellid cynnal panelau maethu'n lleol os gallai awdurdodau lleol ddangos eu bod yn cyrraedd safonau polisi cenedlaethol |
| | | Paru a lleoli plant |
| | Gwasanaethau cymorth Grwpiau Cyfoedion ar gyfer gofalwyr maeth | Cymorth i ofalwyr maeth |

## BARN PARTNERIAID GWASANAETHAU CYHOEDDUS:

Caiff y Grŵp Meddygol Cymreig (cynghorwyr meddygol mewn maethu a mabwysiadu a phediatryddon sydd â diddordeb arbennig mewn mabwysiadu, maethu a phlant sy'n derbyn gofal ledled Cymru) ei gefnogi gan AFA Cymru.

Mae'r cynlluniau a awgrymwyd ar gyfer Fframwaith Maethu Cenedlaethol yn synhwyrol ac fe groesewir y syniad o safoni gwasanaethau – recriwtio, asesu, proses banel. Mae'r grŵp yn ystyried fod y materion canlynol yn bwysig a byddai'n dymuno iddynt gael eu cynnwys wrth inni symud i Gam Dau.

- Gwneud rôl cynghorydd meddygol mewn maethu'n un statudol. Pe bai rôl y cynghorydd meddygol mewn maethu'n un statudol a hynny'n cynnwys presenoldeb ar gyfer panel maethu, byddai'n ofynnol i fyrddau iechyd gefnogi pediatryddon sy'n ymgymryd â'r rôl hon a nodi amser wrth gynllunio'r swydd. Ar hyn o bryd, mae hyn yn anodd mewn rhai ardaloedd.
- Gallai panelau rhanbarthol beri anawsterau logistaidd i gynghorwyr meddygol gan fod panelau presennol yn brysur. Gydag unrhyw gynnydd mewn baich gwaith, byddai angen ymdrin â'r pwynt bwled uchod i ddechrau. Ar hyn o bryd, nid oes yna unrhyw ofyniad i'r cynghorydd meddygol fod yn bresennol ar gyfer panel – rydym yn gwneud hynny gan y teimlwn ei fod yn ymarfer da. Mae'n hynod annhebygol na fyddai byrddau iechyd yn cefnogi unrhyw gynnydd yn amser cynghorwyr meddygol ac fe allent ailedrych ar yr hyn y maent yn ei ddarparu ar hyn o bryd.
- Byddem yn croesawu mwy o gysondeb o ran cyfrifoldeb sydd wedi'i ddirprwyo.
- Rydym yn gwerthfawrogi'r rôl broffesiynol y mae gofalwyr maeth yn ymgymryd â hi.
- Mae gennym bryderon sylweddol ynglŷn â phlant sy'n derbyn gofal y tu allan i'r ardal:
  - Rydym yn datblygu protocol hysbysu Cymru gyfan ar gyfer plant sy'n derbyn gofal y tu allan i'r ardal (gyda nyrsys Plant sy'n Derbyn Gofal a'r gwasanaeth diogelu plant).
  - Credwn y dylai iechyd fod â rôl gliriach ar banelau lleoli y tu allan i ardal – lle gwneir penderfyniadau ynglŷn â'r lleoliadau hyn. Mae pob panel lleoli yng Nghymru'n wahanol.
- Nid ydym yn hapus â'r Dangosyddion Perfformiad presennol ar gyfer iechyd. Nid ydynt yn mesur ansawdd ac nid ydynt yn canolbwyntio ar ganlyniad. Byddem yn dymuno datblygu dangosyddion perfformiad gwell ar gyfer gwasanaethau iechyd o ran plant sy'n derbyn gofal.
- Teimlwn y dylai iechyd fod â chynrychioliad ar bwyllgorau rheoli maethu rhanbarthol.
- Rydym yn pryderu fod lleoliadau preswyl yn y sector annibynnol ar restr "rhy anodd" y Fframwaith Maethu Cenedlaethol ar hyn o bryd gan fod gennym bryderon diogelu oherwydd eu bod yn cael eu sefydlu heb ymgynghori.
- Mae gennym bryderon ynglŷn â chefnogaeth Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) i ofalwyr maeth a phlant sy'n derbyn gofal. Dylid safoni hyn ledled Cymru. Byddem yn croesawu dull carlam gyda Phlant sy'n Derbyn Gofal o fewn Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) os nad oes ganddynt wasanaeth pwrpasol Plant sy'n Derbyn Gofal ar gael a chydnabyddiaeth y gall mewnbwn a chymorth sefydlogi lleoliad. Mewn rhai ardaloedd, bydd Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) yn atgyfeirio i ysgolion neu gymorth gwasanaethau cymdeithasol, ond mae'n rhaid i'r penderfyniadau hyn fod yn rhai amlasiantaethol. Mae'n rhaid i ddarpariaeth gyffredinol dda ganiatáu dull carlam pan fo'r angen.
- Gofal Maeth gan Berthnasau – mae gennym bryderon ar hyn o bryd ynglŷn â safonau gwahanol wrth asesu.
- Gorchymyn Gwarcheidwaeth Arbennig – rydym yn ystyriol o ddiffyg asesiadau gofalwyr sy'n amhriodol ac nad yw'n diogelu plant yn briodol. Bydd Llywodraeth Cymru yn sefydlu grŵp technegol ym mis Mai 2016 ynglŷn â Gorchmynion Gwarcheidwaeth Arbennig.

# Dysgu oddi wrth Ein Gilydd

Fe ddefnyddiwyd yr holl ddulliau ymgynghori i ddynodi fod yna arfer ardderchog o ran cyflenwi gwasanaethau gofal maeth. Mae gofalwyr maeth wedi dangos eu gofal a'u hymrwymiad i'r bobl ifanc y maent yn gofalu amdanynt ac mae pobl ifanc wedi siarad yn angerddol am y gofal maent wedi'i dderbyn gan eu gofalwyr maeth. Mae staff hefyd wedi siarad yn falch am y dyfeisiadau y buont yn gyfrifol am eu llunio. Nid ydym wedi gallu cipio'r holl enghreifftiau o arfer da yn yr adroddiad hwn, ond dyma rai.

## ENGHREIFFTIAU O ARFERION GORAU YNG NGHYMRU

### Gweithio gyda'n gilydd i wella gwasanaethau maethu yng Ngogledd Cymru

Mae timau maethu'r awdurdodau lleol yn gweithio gyda'i gilydd i wella'u gwasanaethau. Mae prosiectau rhanbarthol a ddechreuwyd gan ganolbwynt Comisiynu Gogledd Cymru yn cynnwys hyfforddiant 'Y Sgiliau i Faethu™', rhannu darpariaeth gofalwyr maeth mewnol ac ymuno â Chonsortiwm Comisiynu Plant Cymru (4Cs). Fe weithiodd yr awdurdodau lleol gyda'i gilydd hefyd i lunio ffurflen ar gyfer asesu gofalwyr maeth sy'n berthnasau neu bobl eraill sydd â chysylltiad, fel gofalwyr. Mae ail gam y prosiect yn canolbwyntio ar farchnata, recriwtio a symleiddio polisïau a phrosesau ar gyfer gwasanaethau maethu mewnol. Mae gwaith a gwblhawyd hyd yn hyn yn cynnwys:

- Gwefan ar y cyd ar gyfer awdurdodau lleol Gogledd Cymru i hyrwyddo cyfleoedd maethu www.northwalesfostering.gov.uk www.maethugogleddcymru.gov.uk
- Gweithio gyda'i gilydd i weithredu'r cynllun 'Pan Fyddaf yn Barod', gan gynnwys asesiad ar y cyd o'r effaith ariannol, datblygu polisi, symleiddio lwfansau a datblygu cwrs hyfforddi'r hyfforddwr.
- Llunio ffurflen ddrafft i asesu gofalwyr maeth.

Y camau nesaf ar gyfer y prosiect yw parhau i weithio gyda'n gilydd i farchnata ar y cyd ac edrych ar opsiynau i symleiddio ffioedd a thaliadau. Darperir cymorth rheoli prosiect gan Raglen Gydweithredol Gwella Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Lles Gogledd Cymru.

### Maethu Dyfodol Iach

Fel rhan o'r ymchwil Hyder mewn Gofal, mae Cascade (Prifysgol Caerdydd) yn ymwneud ar hyn o bryd ag astudiaeth ddichonolrwydd i ymchwilio i weld a fyddai'r model Maethu Dyfodol Iach o weithio â phlant maeth, a ddatblygwyd yn Colorado, UDA, yn berthnasol ac yn ymarferol i'w gynnal yng Nghymru. Ataliol yw athroniaeth danategol yr ymyriad. Mae'r model wedi'i seilio ar gryfderau, gyda'r nod o leihau datblygiad anawsterau iechyd meddwl, hyrwyddo hunan-barch a gwella gwytnwch pobl ifanc. Mae'r model yn cynnwys cynnig grwpiau sgiliau a mentora i bobl ifanc 9-11 oed sy'n byw oddi cartref mewn gofal maeth, dros gyfnod o naw mis. Bydd y grwpiau sgiliau'n rhedeg gydag 8 o bobl ifanc (pedwar bachgen a phedair merch). Ym model yr Unol Daleithiau, darperir y mentora gan fyfyrwyr gwaith cymdeithasol ôl-raddedig yn rhan o'u cyfle i ddysgu wrth ymarfer. Bydd pob myfyriwr yn mentora dau berson ifanc a bydd hynny'n rhoi cyfle i weithio'n uniongyrchol ac yn ddwys â phlant. Bydd y myfyriwr, yn rhan o'u rôl, yn cysylltu ymhellach â'r gofalwyr maeth, ysgolion, rhieni biolegol, tîm troseddau'r ifanc fel y bo'n briodol, gan ganiatáu peth gwaith amlddisgyblaethol.

Mae ansawdd sail y dystiolaeth sy'n ymwneud ag effaith Maethu Dyfodol Iach ar wella canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal yn Colorado wedi'i wirio'n annibynnol gan y 'California Evidence-based Clearing House on Child Welfare'. Mae'r Athro Heather Taussig wedi ysgrifennu'n helaeth am y cynllun. Mae'r adborth o'r astudiaeth ddichonolrwydd wedi bod yn bositif hyd yn hyn, a byddem yn gobeithio gwneud cais am ragor o gyllid i gynnal peilot yng Nghymru.

### MIST (Gwasanaeth Ymyriad Amlddisgyblaeth Torfaen)

Mae MIST yn bartneriaeth amlasiantaethol sy'n gweithio i ddychwelyd plant sy'n derbyn gofal o ofal preswyl. Mae'n gweithio'n llyfn ledled asiantaethau statudol i ddarparu dewis gwahanol effeithiol i ofal preswyl ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac sydd ag anghenion hynod gymhleth. Mae hefyd yn arbed cost. Mae MIST, sy'n cael ei redeg gan Gweithredu dros Blant, wedi bod yn weithredol am 12 mlynedd.

Gyda'i gilydd, mae gan y tîm yn MIST yr adnoddau sydd eu hangen i ddiwallu anghenion cymhleth y plant hyn. Mae gwneud ymrwymiad hirdymor a gweithio mewn gwir bartneriaeth â chydweithwyr proffesiynol, ac yn bwysicach â'r plant eu hunain a'u teuluoedd, yn creu adnodd sylweddol o wybodaeth, sgiliau, creadigrwydd a phenderfyniad. Y canlyniad yw pobl ifanc sy'n ddiogelach, yn hapusach ac yn fwy gwydn.

Cyflawnwyd llwyddiant drwy ddychwelyd y plant hynny a oedd mewn gofal preswyl yn barod i leoliadau gofal maeth a lleoliadau gofal perthnasau therapiwtig gyda chymorth dwys. Mae'r lleoliadau hyn yn cynnwys pecynnau addysg arbenigol a phecynnau o therapïau seicolegol lluosog sydd wedi'u teilwra'n unigol.

**Maethu Chwarae y Tu Allan**

Mae Maethu Chwarae y Tu Allan (a gynlluniwyd ac a gyflenwyd gan 'Dysgu drwy Dirweddau') yn gwrs 4 diwrnod sydd â'r nod o wella canlyniadau iechyd corfforol a meddyliol Plant sy'n Derbyn Gofal drwy gefnogi gofalwyr ac ymarferwyr i ddarparu gweithgareddau aml, rheolaidd ac o ansawdd a chwarae y tu allan ac yn yr amgylchedd naturiol. Caiff y cwrs ei gynnal bron yn gyfan gwbl yn yr awyr agored a'i nod yw adeiladu'r capasiti i ofalwyr maeth ddefnyddio eu llecynnau gwyrdd lleol (yn cynnwys eu gerddi eu hunain) ar gyfer chwarae a dysgu y tu allan. Yn ystod y cwrs, bydd gofalwyr yn defnyddio profiadau awyr agored i feithrin ymddiriedaeth ac annibyniaeth, i ddarparu cyfleoedd gwahanol ar gyfer cyswllt, paratoi plant ar gyfer symud ymlaen a gwerthfawrogi'r manteision o gymryd risg er mwyn meithrin gwytnwch.

**Maethu Abertawe**

Y broblem

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn 2011, fe adroddodd Maethu Abertawe enillion net o 0 o ofalwyr maeth ar ôl recriwtio dim ond yr un nifer o ofalwyr maeth ag a ddadgofrestrodd. Roedd y tîm yn gweithio'n galed i recriwtio ac roedd ganddo swyddog marchnata dynodedig yn cynhyrchu ymgyrchoedd o ansawdd, lle cafwyd 348 o ymholiadau y flwyddyn honno. Fodd bynnag, dim ond 1 mewn 29 o'r ymholiadau hyn a droswyd yn gymeradwyaeth.

Yr hyn a wnaethom

Cynhaliodd aelod o'r tîm ymarferiad marchnata i ddeall yn llawn y gystadleuaeth newydd a oedd wedi datblygu o'u cwmpas gyda'r twf mewn Panelau Maethu Annibynnol. Fe gwblhawyd ymchwil eang hefyd i daliadau ariannol ac anghenion gofalwyr maeth er mwyn iddynt allu cwblhau'r gorchwyl yn dda a theimlo eu bod wedi'u cydnabod yn llawn am eu rôl. Canlyniad y gwaith hwn oedd newidiadau arwyddocaol i'r pecyn ariannol ar gyfer gofalwyr maeth ac ailwampiad llwyr o'r broses recriwtio o'r dechrau i'r diwedd.

Y prif newidiadau oedd:

- Crëwyd dau dîm newydd: un i ganolbwyntio ar recriwtio/asesu prif ffrwd a chefnogaeth i ofalwyr maeth a'r llall i ganolbwyntio ar asesu a chefnogi gofalwyr maeth sy'n berthnasau
- Roedd strwythur tîm y tîm prif ffrwd yn cynnwys tîm generig gyda recriwtio Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwyliol, asesu a chefnogi gofalwyr maeth, a hynny'n caniatáu i fwy o asesiadau gael eu cwblhau (baich achosion o 12 gofalwr 2 asesiad)
- Cyflwyno Gweithiwr Cymdeithasol uwch dynodedig i arolygu pob agwedd ar recriwtio, i roi sicrwydd ansawdd ac i flaenoriaethu'r gwaith hwn. Monitro ac ymateb i angen
- Swyddog dyletswydd dyddiol i gymryd galwadau gan ymholwyr ac i ymateb yn brydlon bob amser – cafodd y tîm cyfan ei hyfforddi yn y 'dull sy'n canolbwyntio ar y person a hynny mewn ffordd effeithlon'
- Ymweliadau cartref i'w bwcio o fewn 7 diwrnod o'r alwad ffôn gyntaf
- Pecyn gwybodaeth i'w anfon yr un diwrnod fel y caiff ei dderbyn o fewn 24 awr bob amser
- Galwad ragweithiol yn ôl i'r ymgeiswyr sydd ddim yn gwbl barod i fwrw ymlaen
- Hyfforddiant paratoi cyflym ac effeithiol a dyraniad ar gyfer asesiad (a gyflawnir drwy gynyddu'r tîm o aseswyr a chyflwyno graddfeydd amser caeth o 4-6 mis)
- Ffocws marchnata ar werthoedd cynhenid gofalwyr maeth i sicrhau fod yr hysbysebu wedi'i gyfeirio'n gywir
- Ymateb rhagweithiol i drosglwyddiad gofalwyr – datblygu pro fforma trosglwyddo mewnol i gynorthwyo gyda throsglwyddiadau llyfn.

Y canlyniad – O fewn 12 mis ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2013, fe adroddodd Maethu Abertawe enillion net o 28 o ofalwyr maeth a chynnydd sylweddol mewn cyfraddau trosi, gydag 1 o bob 6 ymholiad yn arwain at gymeradwyaeth. Fe drosglwyddodd 12 o ofalwyr maeth o Banelau Maethu Annibynnol o fewn y cyfnod hwn ac fe ddychwelwyd 6 o blant Abertawe i leoliadau mewnol. Buddsoddodd yr Awdurdod Lleol yn hael mewn cyllid gofal maeth er mwyn lleihau gwariant ei Banel Maethu Annibynnol ochr yn ochr â dulliau recriwtio cyson gwell i gynyddu'r dewis o leoliadau'n fewnol. Canlyniad hynny oedd 75% o blant a oedd wedi'u hatgyfeirio y flwyddyn honno'n cael eu lleoli'n fewnol a chyfanswm arbediad o £106,283.00 i wariant y Panel Maethu Annibynnol.

Symud ymlaen

Canlyniad effaith y recriwtio yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf oedd 93% o blant a oedd angen gofal yn ystod 2014-2015 yn cael eu lleoli'n fewnol.

Mae Maethu Abertawe yn awr yn darparu ar gyfer 65% o gyfanswm y boblogaeth o blant sy'n derbyn gofal mewn lleoliadau mewnol, o'i gymharu â dim ond 49% yn 2012. Gellir ailadrodd y modiwl hwn ledled Gwasanaethau Maethu eraill os caiff y dull "buddsoddi i arbed" ei fabwysiadu.

# Beth a ddysgasom gan Gam Un?

Mae yna awydd ymysg yr holl randdeiliaid allweddol i ystyried sut y gallwn wella'n gwasanaethau maethu yng Nghymru. Mae pob rhanddeiliad allweddol wedi mynegi dymuniad i fod yn rhan o'r ymdrech hon.

Mae angen inni gadw'r ffordd y byddwn yn gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc yn graidd i'n holl waith.

Bydd ymgysylltu â'n partneriaid yn y sector gyhoeddus, yn enwedig y rheiny mewn iechyd, yn cynnwys Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) ac addysg, yn allweddol i unrhyw ddatblygiadau ar gyfer Fframwaith Maethu Cenedlaethol.

- Bydd ymgysylltu â gofalwyr maeth a chadw'u problemau'n flaenoriaeth yn ganolog os ydym i wneud gwahaniaeth gwirioneddol.
- Mae gan y trydydd sector gyfraniad pwysig i'w wneud gyda darparu lleoliadau a modelau cyflenwi newydd.
- Mae darparwyr annibynnol (masnachol a'r trydydd sector) yn awyddus i fod yn gysylltiedig â datblygiad y Fframwaith Maethu Cenedlaethol.
- Mae materion amrywiaeth yng Nghymru, sef diwylliant, daearyddiaeth ac iaith, ag arwyddocâd.
- Gallwn ddysgu gwersi o'r ffordd y cafodd y Gwasanaethu Mabwysiadu Cenedlaethol ei sefydlu a 18 mis cyntaf ei weithrediad.
- Mae yna beth cytundeb y gellid cyflenwi'n well rai agweddau ar y gwasanaethau maethu yn genedlaethol neu'n rhanbarthol.
- Mae Gofal Maeth gan Berthnasau yn cyflwyno heriau sylweddol iawn i ddarparwyr gwasanaeth maethu awdurdodau lleol ac mae angen ymdrin â nhw gyda chryn frys.
- Nid ydym yn gwybod digon ac nid oes gennym yr wybodaeth briodol i allu rheoli ein gwasanaethau maethu'n effeithiol ledled Cymru.

*Ni fydd datblygu Fframwaith Maethu Cenedlaethol yn hawdd ond mae'n briodol inni wneud hynny os ydym o ddifri ynglŷn â gwella canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal.*



# Canlyniadau a Ddymunir oddi wrth Gam Un

## Dyma'r prif themâu sydd wedi ymddangos o'r hyn yr oeddem yn ei wybod yn barod am ein gwasanaethau maethu, y rhaglen ymgynghori a rhaglen waith Cam Un.

Bydd yn rhaid i'r ffordd y byddant yn gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc ac i ofalwyr maeth fod yn graidd i'r holl feysydd blaenoriaeth yng Ngham Dau.

| Maes blaenoriaeth | Sut fydd hyn yn gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc? | Sut fydd hyn yn gwella canlyniadau i ofalwyr maeth? |
|---|---|---|
| 1. Fframwaith perfformiad ac adnoddau cenedlaethol | Byddwn yn gwybod mwy am yr hyn sy'n gweithio ac sydd ddim yn gweithio fel y gallwn gynllunio i wella'r meysydd sydd angen sylw. | Byddwn yn gwybod mwy am yr hyn sy'n gweithio ac sydd ddim yn gweithio fel y gallwn gynllunio i wella'r meysydd sydd angen sylw. |
| 2. Fframwaith polisi cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau maethu | Bydd y fframwaith polisi yn cyflawni mwy o gysondeb ar gyfer y plant a'r bobl ifanc i gyd, pa gartref maethu bynnag y byddant yn byw ynddo. | Fe wna'r fframwaith polisi gyflawni mwy o gysondeb ar gyfer gofalwyr maeth, ble bynnag y byddant yn byw yng Nghymru. |
| 3. Gofal Maeth gan Berthynas | Bydd pob plentyn sy'n byw â Gofalwr Maeth sy'n Berthynas yn derbyn gofal sy'n gyson. | Darparu dull cyson o asesu, cefnogi a hyfforddi gofalwyr maeth. |
| 4. Comisiynu lleoliadau – yn fewnol ac yn allanol | Sicrhau'r dewis ehangaf posibl o leoliadau i blant a phobl ifanc a rhoi gwell gwybodaeth iddynt ynglŷn ag opsiynau lleoli. | Gwell paru rhwng plant a phobl ifanc a gofalwyr maeth er mwyn gwella sefydlogrwydd lleoliadau. |
| 5. Fframwaith hyfforddi cenedlaethol ar gyfer gofalwyr maeth | Bydd gofalwyr sy'n fwy abl ar gyfer y gorchwyl yn gofalu am blant a phobl ifanc. | Bydd gofalwyr maeth wedi'u hyfforddi a'u cefnogi'n well i ddarparu gofal o ansawdd a sefydlogrwydd i blant a phobl ifanc. |
| 6. Strategaeth farchnata genedlaethol – gwefan/logo | Cynyddu nifer y gofalwyr maeth a rhoi mwy o ddewis i blant a phobl ifanc o ran lleoliad. | Codi proffil a statws gofalwyr maeth ledled Cymru. |
| 7. Strwythur talu ar gyfer ffioedd a lwfansau gofalwyr maeth | Gofalu bod pob gofalwr yn gallu darparu gofal o ansawdd i blant a phobl ifanc. | Mwy o gysondeb a thryloywder i ofalwyr. |